

Senedd Cymru

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon,
a Chysylltiadau Rhyngwladol**

Y fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg

Mai 2023



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddDiwylliant

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygrych, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon,
a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDiwylliant@senedd.wales**
Twitter: **[@SeneddDiwyllICRh](https://twitter.com/SeneddDiwyllICRh)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg

Mai 2023



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddDiwylliant

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Cadeirydd y Pwyllgor:
Delyth Jewell AS
Plaid Cymru



Hefin David AS
Llafur Cymru



Alun Davies AS
Llafur Cymru



Heledd Fychan AS
Plaid Cymru



Tom Giffard AS
Ceidwadwyr Cymreig



Carolyn Thomas AS
Llafur Cymru

Cymerodd yr aelodau a ganlyn o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ran yn yr ymchwiliad hefyd gan adrodd yn ôl i'w Pwyllgor yn rheolaidd.



Sioned Williams AS
Plaid Cymru



Buffy Williams AS
Llafur Cymru

Mynychodd yr Aelodau a ganlyn fel dirprwyon yn ystod yr ymchwiliad hwn.



Altaf Hussain AS
Ceidwadwyr Cymreig



Jenny Rathbone AS
Llafur Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd.....	5
Argymhellion	7
1. Cyflwyniad	10
Cefndir.....	10
Gwaith trawsbwylgor	11
Cylch gorchwyl.....	12
Casglu tystiolaeth	12
2. Cyd-destun polisi a deddfwriaethol	14
Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCAau)	14
Adolygiad Brys o CSCAau 2017	15
Paratoi a chyflwyno CSCAau	16
Categoriâu ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg	17
Ymchwiliadau blaenorol	18
Barn rhanddeiliaid ar y fframwaith statudol presennol	20
Ein barn ni.....	22
3. Datblygu a darparu CSCAau	25
Datblygu CSCAau	25
Arweinyddiaeth a diwylliant	26
Cylch deng mlynedd	27
Monitro ac atebolrwydd gweithredu'r CSCAau	28
Ein barn ni.....	29
4. Cyllid cyfalaf.....	33
Eglurder a chydlynu cyllid	33

Cymhelliant	36
Ein barn ni.....	37
5. Cynyddu dysgu Cymraeg yn y sector cyfrwng Saesneg	39
Darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector cyfrwng Saesneg.....	39
Categoriâu ysgol a chontinwrm iaith.....	41
Ymgysylltu a dull gweithredu i bob oed o ran cynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg.....	43
Ein barn ni.....	45
6. Adnoddau staffio	48
Y Gweithlu Addysg	48
Achrediad, hyfforddiant a chysiau	50
Ariannu datblygiad y gweithlu cyfrwng Cymraeg.....	52
Ein barn ni.....	54
7. Ymateb i Cyfrifiad 2021	56
Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.....	58
Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig.....	60
Atodiad 3: Tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol	61

Rhagair y Cadeirydd

Yn 2017, gosododd Llywodraeth Cymru darged uchelgeisiol i sicrhau y bydd miliwn o bobl yn gallu siarad Cymraeg erbyn 2050. Mae'r system addysg yn ganolog i gyrraedd y targed hwn – o ran ehangu gallu'r sector cyfrwng Cymraeg a gwella datblygiad sgiliau Cymraeg pobl ifanc mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Yn sail i lwyddiant y gwaith hwn mae Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Cyflwynwyd Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCAau) i helpu i ddatblygu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ledled Cymru, gan ddarparu mecanwaith i Lywodraeth Cymru sicrhau bod awdurdodau lleol yn gweithio tuag at amcanion a thargedau cenedlaethol. Dywedodd y Gweinidog Addysg blaenorol fod “rhaid i ni chwarae gêm tymor hir i gyrraedd miliwn o siaradwyr” a bod y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn arf strategol hirdymor i awdurdodau lleol helpu i gyrraedd y targed cenedlaethol o filiwn o siaradwyr erbyn 2050.¹

Aeth ein hymchwiliad ati i ymchwilio i bolisi, deddfwriaeth a chymorth ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu addysg iaith Gymraeg.

Mae'r adborth cyffredinol gan randdeiliaid yn dweud wrthym, ar y cyfan, bod CSCAau yn beth da, ond fel y rhan fwyaf o bethau, nid ydynt yn berffaith. Mae'r newidiadau y mae angen eu cyflwyno i wella CSCAau yn amrywio'n sylweddol o ran eu natur, a bydd angen gosod rhai yn statudol.

Mae'n rhaid cryfhau'r broses bresennol ar gyfer monitro a gwerthuso CSCAau. O ystyried bod CSCAau bellach ar gylch deng mlynedd (yn hytrach na'r cylch tair blynedd blaenorol), mae'n hanfodol cael gwerthusiad o fesurau ychwanegol ar gyfer monitro a gwerthuso'r cynlluniau hyn yn rheolaidd. Mae deng mlynedd heb adolygiad rheolaidd yn rhy hir.

Yn ogystal, mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried rôl allweddol Fforymau CSCA. Mae'r Fforymau hyn yn gyfleoedd pwysig i awdurdodau lleol a'u rhanddeiliaid ddatblygu CSCAau, ond mae'r amrywiaeth yn y ffordd y cânt eu rhedeg yn peri pryder. Credwn fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru adolygu rôl a chyfansoddiad y Fforymau hyn ac archwilio ffyrdd o sicrhau gwell cysondeb yn eu gwaith ledled Cymru.

¹ Llywodraeth Cymru: [Canllawiau ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg](#) – 21 Ionawr 2021 (PDF 1.5MB)

Mae'n bwysig nodi yma hefyd rôl annatod sefydliadau fel yr Urdd a'r Mentrau Iaith o ran cefnogi'r gwaith o ddatblygu a darparu darpariaeth Gymraeg ledled Cymru. Mae eu gwaith, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac ysgolion, yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg ar dir yr ysgol ond hefyd y tu allan i'r ystafell ddosbarth trwy chwaraeon a gweithgareddau eraill. Mae sicrhau cefnogaeth barhaus a datblygiad darpariaeth o'r fath yn hanfodol os ydym am gyrraedd targedau Cymraeg 2050.

Yn olaf, mae llwyddiant y CSCAau yn y dyfodol yn dibynnu ar sicrhau bod gweithlu cymwys ar gael yn rhwydd. Clywsom am bryderon nad oes digon o staff i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg, nac addysgu cyfrwng Cymraeg yn y sector cyfrwng Saesneg. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru fuddsoddi'n sylweddol mewn uwchsgilio'r gweithlu addysgu presennol, gan roi'r cyfle i nifer uwch o athrawon, cynorthwyrwyr addysgu a darlithwyr ymgymryd â'r Cynllun Sabothol.

Rydym oll yn ymwybodol o ganlyniadau siomedig y Cyfrifiad a gyhoeddwyd ar ddiwedd 2022. Er hyn, nid oes angen anobeithio. Mae cyfle nawr i gyflwyno newid. Bydd yr argymhellion a nodir yn yr adroddiad hwn, pe baent yn cael eu derbyn gan Lywodraeth Cymru, yn ysgogi ymdrechion i ddatblygu gweithlu dwyieithog. Gweithlu a fydd yn sicrhau bod dysgwyr yn cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel i roi cyfleoedd iddynt ddatblygu eu sgiliau Cymraeg y byddant, gobeithio, yn mynd ymlaen i'w defnyddio yn eu bywydau bob dydd. Rhaid i Lywodraeth Cymru nawr fachu ar y cyfle i wneud y newidiadau angenrheidiol, er gwell, drwy ei Bil Addysg Gymraeg arfaethedig i sicrhau ei bod yn cymryd camau breision tuag at darged 2050.

Yr ymchwiliad hwn hefyd oedd yr ymchwiliad cyntaf, o blith nifer gobeithio, a gynhaliwyd ar y cyd gan Bwyllgorau'r Senedd ar faterion lle mae buddiannau cyffredin. Roedd y model a ddewiswyd ar gyfer yr ymchwiliad hwn yn gweithio'n dda ac rwy'n ddiolchgar i Aelodau'r ddau Bwyllgor am eu cyfraniad. Yn yr un modd, hoffwn ddiolch hefyd i bawb a gynorthwyodd â'r ymchwiliad drwy rannu eu safbwyntiau a'u barn â'r Pwyllgor.



Delyth Jewell AS

Cadeirydd y Pwyllgor

Argymhellion

Argymhelliad 1. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu adolygiad cyflym ar fyrder o bolisiau trafndiaeth pob awdurdod lleol yng Nghymru i nodi'r meysydd sy'n atal mynediad i ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Dylai'r adolygiad hefyd argymell pa gymorth sydd ei angen i fynd i'r afael â'r mater yn y tymor byr ac a oes angen deddfwriaeth sylfaenol bellach i'w ddatrys ai peidio yn y tymor hir. Os yw Llywodraeth Cymru o'r farn mai'r adolygiad o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yw'r ffordd fwyaf priodol o wneud hyn, yna dylai ystyried y mater hwn..... Tudalen 23

Argymhelliad 2. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i nodi mesurau addas a fyddai'n gwella'r trefniadau presennol ar gyfer monitro cynnydd y CSCAau. Dylai hyn gynnwys archwilio'r posibilrwydd y gallai sefydliad, sy'n annibynnol ar y Llywodraeth, chwarae mwy o ran wrth fonitro cynnydd awdurdodau lleol yn y CSCAau..... Tudalen 31

Argymhelliad 3. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod deddfwriaeth sylfaenol arfaethedig ar addysg Gymraeg yn cynnwys mesurau a fydd yn caniatáu iddi fonitro cynnydd Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol. Dylai hyn gynnwys mesurau sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd a chymryd camau, os oes angen, lle mae'n amlwg bod awdurdodau lleol wedi methu â chyrraedd eu targedau. Tudalen 31

Argymhelliad 4. Rydym yn argymell datblygu fframwaith cenedlaethol i sicrhau dull cenedlaethol cyson o gynllunio a darparu addysg Gymraeg. Tudalen 31

Argymhelliad 5. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad byr i nodi'r cyfnodau amser o fewn y cylch 10 mlynedd y mae angen monitro a thargedau ychwanegol arnynt. Unwaith y bydd wedi'i nodi, dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellir cynnwys hyn o fewn y dull arfarnu ar gyfer cynnydd yn erbyn CSCAau. Dylai'r adolygiad byr hefyd ystyried a ddylai'r materion hyn gael eu cynnwys ym Mil Addysg Gymraeg arfaethedig y Llywodraeth..... Tudalen 31

Argymhelliad 6. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu mesurau newydd ar gyfer annog a chefnogi newid diwylliannol mewn awdurdodau lleol tuag at fanteision datblygu addysg Gymraeg yn eu hardal. Yn dilyn yr adolygiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru ystyried pa rai o'r swyddogaethau hyn ddylai gael eu gosod ar sail statudol a'u cynnwys yn ei Bil Addysg Gymraeg arfaethedig. Tudalen 32

Argymhelliad 7. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal cronfa gyfalaf addysg cyfrwng Cymraeg benodedig o fewn cyllideb Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, yn ogystal â'r cymorth y mae prosiectau cyfrwng Cymraeg yn ei gael o'r gronfa gyffredinol.....Tudalen 38

Argymhelliad 8. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu rôl Fforymau yn y broses o ddatblygu a monitro CSCAau, ac asesu strwythurau ac effaith amrywiol Fforymau ledled Cymru.Tudalen 47

Argymhelliad 9. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gosod Fforymau Cynllunio Cymraeg mewn Addysg ar sail statudol, gan sicrhau bod gan bob awdurdod lleol yng Nghymru Fforwm ar waith i gynghori a monitro cynnydd CSCAau yr awdurdod.....Tudalen 47

Argymhelliad 10. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer Fforymau Cynllunio Cymraeg mewn Addysg, gan sicrhau strwythur cyson a phwrpasol ledled Cymru.....Tudalen 47

Argymhelliad 11. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi a hwyluso cydweithio agosach rhwng awdurdodau lleol a phartneriaid yn y sectorau blynyddoedd cynnar ac ôl-16 i ddatblygu darpariaeth Gymraeg yn lleol.
.....Tudalen 47

Argymhelliad 12. Rydym yn argymell y dylai fod yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori a chydweithio â darparwyr addysg blynyddoedd cynnar ac ôl-16 yn eu hardaloedd lleol ac ar draws y rhanbarth wrth ddatblygu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn y dyfodol.....Tudalen 47

Argymhelliad 13. Rhaid i Lywodraeth Cymru, ynghyd ag awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol ddatblygu a gwella mesurau casglu data cadarn ac effeithiol i gefnogi datblygiad gweithlu dwyieithog.....Tudalen 54

Argymhelliad 14. Rydym hefyd yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y gweithlu meithrin yn cael ei gynrychioli mewn arolwg Cyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Ysgolion yn y dyfodol i wella'r gwaith o gasglu a dadansoddi data ar sgiliau Cymraeg ar draws y sector cyn-statudol.....Tudalen 54

Argymhelliad 15. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i ddichonoldeb system achredu cyfrwng Cymraeg ar gyfer athrawon sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai hyn yn sicrhau bod gan athrawon y sgiliau i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg lle mae anghenion ieithyddol a diwylliannol pob ysgol neu ardal yn wahanol. Dylai hyn gynnwys yr angen i edrych ar sut mae

cysiau'n cael eu cynllunio a sut mae athrawon yn cael eu hyfforddi i addysgu Cymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.....Tudalen 55

Argymhelliad 16. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru ynghyd â phartneriaid allweddol yn archwilio'r potensial i integreiddio elfennau o'r Cynllun Sabothol i raglenni Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon i drochi a gwella sgiliau iaith Gymraeg athrawon dan hyfforddiant.....Tudalen 55

Argymhelliad 17. Rydym yn argymell bod angen i Lywodraeth Cymru fuddsoddi'n sylweddol mewn uwchsgilio'r gweithlu addysgu presennol, gan roi'r cyfle i nifer uwch o athrawon, cynorthwywyr addysgu a darlithwyr ymgymryd â'r Cynllun Sabothol.....Tudalen 55

Argymhelliad 18. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ellid ehangu'r Cynllun Sabothol i rai ymarferwyr blynyddoedd cynnar yng Nghymru sy'n cefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector, neu i hyrwyddo ac ehangu'r Cynllun Dysgu Cymraeg ar gyfer Addysg y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant drwy Dysgu Cymraeg.....Tudalen 55

1. Cyflwyniad

Cefndir

1. Mae'n ddeng mlynedd ers i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ("CSCAau") ddod yn weithredol, a chael eu gosod ar sail statudol drwy ddarpariaethau yn ***Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013***. Dywedodd Llywodraeth Cymru mewn canllawiau a gyhoeddwyd i awdurdodau lleol:

*"Bydd ein cyfraniadau heddiw, a'ch cyfraniadau wrth weithredu eich Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg dros y 10 mlynedd nesaf, yn ein helpu i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg."*²

2. Yn 2017, nododd Llywodraeth Cymru ei huchelgais i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn o bobl erbyn 2050, ynghyd â chynyddu defnydd o'r iaith o ddydd i ddydd. Y cynnig oedd y byddai'r sector addysg yn chwarae rhan ganolog o ran creu'r rhan fwyaf o'r siaradwyr Cymraeg newydd. Canfu data o arolwg defnydd o'r Gymraeg 2019-20³ fod plant rhwng 3 a 15 oed yn llawer mwy tebygol o fod wedi dysgu Cymraeg yn yr ysgol neu'r feithrinfa o gymharu â grwpiau oedran hŷn, a oedd yn fwy tebygol o fod wedi dysgu gartref.

3. Roedd strategaeth y Gymraeg – Cymraeg 2050⁴ – yn pennu targedau heriol ar gyfer y tymor hir a'r tymor byr. Mae hyn yn cynnwys cynyddu cyfran pob grŵp blwyddyn ysgol sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg o 22 y cant yn 2017 i 30 y cant erbyn 2031, ac yna 40 y cant erbyn 2050. Mae hefyd yn ceisio trawsnewid sut mae'r Gymraeg yn cael ei dysgu i'r holl ddysgwyr (gan gynnwys y rhai mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ac ysgolion dwy ffrwd), gyda tharged o 70 y cant o ddysgwyr yn nodi erbyn 2050 eu bod yn gallu siarad Cymraeg erbyn iddynt adael yr ysgol.

4. Mae trawsnewid o'r fath yn gofyn am raglen helaeth o ehangu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, wedi'i hysgogi gan awdurdodau lleol drwy eu CSCAau,

² Llywodraeth Cymru: [Canllawiau ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg](#) – 21 Ionawr 2021 (PDF 1.5MB)

³ Llywodraeth Cymru: [Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru \(canfyddiadau cychwynnol\): Gorffennaf 2019 i Fawrth 2020](#)

⁴ Llywodraeth Cymru: [Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg](#) – 10 Gorffennaf 2017

yn ogystal â newidiadau sylweddol i addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

5. Ar 22 Tachwedd 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru y **Cytundeb Cydweithio**. Mae'r ddogfen hon yn nodi meysydd polisi y bydd Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn cydweithio arnynt dros gyfnod o dair blynedd. Mae'r Cytundeb yn rhoi mwy o fanylion am ymrwymiad presennol Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru i gyflwyno Bil Addysg Gymraeg. Mae'r Cytundeb yn egluro y bydd yn: "cryfhau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg; yn pennu uchelgeisiau a chymhellion newydd i ehangu cyfran y gweithlu addysg sy'n gallu addysgu a gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg; yn sefydlu un continwrm dysgu Cymraeg a'i weithredu; yn galluogi ysgolion presennol i symud i gategori Cymraeg uwch ac yn ysgogi cynnydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym mhob lleoliad addysg".⁵

Gwaith trawsbwyllgor

6. Mae cyfrifoldebau sy'n ymwneud ag addysg Gymraeg yn dod o dan gylch gorchwyl y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Fel y cyfryw, cytunwyd i ymchwilio i ffyrdd o gynnal ymchwiliad ar y cyd i CSCAau gan ei fod yn fater pwysig i'r ddau bwyllgor.⁶

7. Cafodd Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg eu nodi fel blaenoriaeth gan randdeiliaid y ddau Bwyllgor yn ystod ymarferion i lywio blaenoriaethau yn ystod haf a hydref 2021. Mae'r ddau Bwyllgor hefyd wedi cytuno yn flaenorol i ymrwymo i gydweithio â Phwyllgorau eraill ar faterion o ddiddordeb cyffredin.

8. Yn dilyn trafodaethau rhwng y ddau Bwyllgor, cytunwyd y byddai'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol yn arwain yr ymchwiliad drwy ystyried tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig a gyflwynwyd. Mae rapporteurs o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi cymryd rhan yn y sesiynau tystiolaeth lafar fel Aelodau llawn o'r Pwyllgor ac wedi adrodd yn ôl i'w Pwyllgor ar hynt yr ymchwiliad. Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol yn gyfrifol am lunio adroddiad a gwneud argymhellion. Mae'r rapporteurs wedi cyfrannu at y

⁵ Llywodraeth Cymru a Plaid Cymru: [Y Cytundeb Cydweithio](#) - Rhagfyr 2021

⁶ [Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Mawrth 2022](#)

broses hon ac wedi adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg lle bo angen.

Cylch gorchwyl

9. Cyhoeddwyd cylch gorchwyl yr ymchwiliad ddydd Mawrth 12 Ebrill 2022. Roedd y cylch gorchwyl yn gofyn i randdeiliaid:

- Ym mis Rhagfyr 2015, cyhoeddodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Pedwerydd Cynulliad argymhellion yn ei adroddiad ar 'Ymchwiliad i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg'. A yw'r fframwaith statudol presennol ar gyfer Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi gwella ers hynny?
- I ba raddau y mae'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyfrannu at y canlyniadau a'r targedau a nodir yn Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg – Cymraeg 2050?
- Sut mae awdurdodau lleol yn ymateb i newidiadau i ganllawiau ar categorïau ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac a ydynt yn bodloni uchelgais Llywodraeth Cymru i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a dwy ffrwd?
- Pa heriau a fydd yn codi o ran cynllunio a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, cyn Bil Addysg Gymraeg arfaethedig?

Casglu dystiolaeth

10. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus gennym rhwng 12 Ebrill a 24 Mehefin 2022. Daeth 10 o ymatebion i law i'r ymgynghoriad. Buom hefyd yn ystyried dystiolaeth lafar gan amrywiaeth o sefydliadau mewn pedair sesiwn dystiolaeth ar wahân gyda rhanddeiliaid rhwng 6 Gorffennaf 2022 a 13 Hydref 2022, a sesiwn dystiolaeth gyda Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar 17 Tachwedd 2022. Ceir amlinelliad o'r dystiolaeth ysgrifenedig a llafar a ystyriwyd ar gyfer yr ymchwiliad hwn yn atodiadau 1 a 2 i'r adroddiad hwn.

11. Gwnaethom hefyd gynnal grŵp ffocws gyda chynrychiolwyr sy'n weithgar o ran cefnogi datblygiad CSCAau awdurdodau lleol ar 20 Hydref 2022.

12. Yn dilyn cyhoeddi data Cyfrifiad 2021 ynghylch nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, penderfynwyd cyhoeddi galwad arall am dystiolaeth.⁷ Ar 14 Rhagfyr 2022, gwnaethom ofyn i'r rhai a oedd eisoes wedi rhoi dystiolaeth i'r Pwyllgor rannu eu barn â ni ar oblygiadau data'r Cyfrifiad i'r fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Daeth i ben ar 16 Ionawr 2023. Amlinellir yr ymatebion a ddaeth i law yn atodiad 3.

13. Hoffem ddiolch i bob unigolyn a sefydliad a roddodd o'u hamser i gyfrannu at ein hymchwiliad.

⁷ Ymgynghoriad Pwyllgor: [Coblygiadau data y Cyfrifiad i'r fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi'r Ddarpariaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg](#)

2. Cyd-destun polisi a deddfwriaethol

Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCAau)

14. Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yw'r rhaglen sydd gan awdurdod lleol i wella'r gwaith o gynllunio a datblygu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn ei ardal. Dylai'r Cynllun hefyd amlinellu sut y bydd yn mynd ati i wella safonau mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac addysgu'r Gymraeg.

15. Daeth y CSCAau yn weithredol yn 2012, a'u gosod ar sail statudol flwyddyn yn ddiweddarach drwy ddarpariaethau yn **Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013**. Maent yn fecanwaith y gall Llywodraeth Cymru ei ddefnyddio i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gweithio tuag at amcanion a thargedau cenedlaethol. Mae'r deddfwriaeth yn gwneud darpariaethau i Weinidogion Cymru:

- gymeradwyo Cynllun fel y'i cyflwynir;
- cymeradwyo Cynllun gydag addasiadau; neu
- wrthod Cynllun a pharatoi Cynllun arall a gaiff ei drin fel Cynllun cymeradwy'r awdurdod.

16. Yn wreiddiol, roedd Cynlluniau ar waith am gylchoedd tair blynedd, ac yn cael eu hadolygu'n flynyddol. Fodd bynnag, oherwydd amcan Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae'r cylch CSCA wedi newid i gylch deng mlynedd. Dywedodd y Gweinidog Addysg blaenorol, Kirsty Williams AS, yn y Canllawiau ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg:

*"Rhaid inni roi amser i'r datblygiadau hyn wreiddio. Dyna pam rwy'n cefnogi'r symud i gynllunio'r Gymraeg dros gyfnod hwy - cylch cynllunio CSCA 10 mlynedd. Rhaid i ni chwarae gêm tymor hir i gyrraedd miliwn o siaradwyr - mae angen i ni fod yn strategol. Mae angen i ni wybod i ble rydyn ni'n mynd. Gyda chmau bach, gallwn gyrraedd ein nod."*⁸

17. Disgwylir i awdurdodau lleol baratoi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg "yn seiliedig ar dargedau strategol uchelgeisiol, wedi'u cyfrifo gan

⁸ Llywodraeth Cymru: **Canllawiau ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg** - 21 Ionawr 2021 (PDF 1.5MB)

ddefnyddio'r fethodoleg rydym [Llywodraeth Cymru] wedi'i datblygu"⁹. Mae'r targedau'n cyfateb i'r rhai yn strategaeth Cymraeg 2050, gyda'r Gweinidog ar y pryd yn nodi ei bod yn disgwyl cyrraedd y garreg filltir o 30 y cant o ddysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2032.

Adolygiad Brys o CSCAau 2017

18. Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd Alun Davies AS, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar y pryd, y byddai "arolwg brys o'r system bresennol ar gyfer cynllunio addysg Gymraeg yn cael ei gynnal"¹⁰. Prif nod yr adolygiad oedd gwneud argymhellion ar sut i ddatblygu CSCAau. Byddai'r adolygiad hefyd yn edrych ar gynlluniau awdurdodau lleol unigol a gyflwynwyd ar y pryd.

19. Yng nghanfyddiadau allweddol yr adroddiad¹¹ nodwyd bod angen "cytuno ar raglen weithgareddau a meini prawf ar lefel awdurdod lleol sy'n cael ei yrru a'i fonitro yn genedlaethol". Aeth yr adroddiad ymlaen i nodi:

"Os yw'r Llywodraeth yn penderfynu ar dargedau a meini prawf cenedlaethol ar gyfer y daith hyd at 2050 felly mi fydd yn rhaid cytuno ar dargedau a meini prawf tebyg ar gyfer pob awdurdod lleol."

20. Gwnaed cyfanswm o 18 o argymhellion, gan gynnwys:

- Creu perthynas mwy agored a heriol rhwng Llywodraeth Cymru a'r holl randdeiliaid ar ddatblygiad y Cynlluniau yn enwedig wrth osod targedau a chytuno ar ddeilliannau.
- Adolygu'r deilliannau presennol a hefyd cytuno ar y deilliannau mwyaf pwrpasol a phriodol ar gyfer y cylch nesaf o Gynlluniau er mwyn cyfrannu yn effeithiol at uchelgais y Llywodraeth o ran 2050.
- Symleiddio proses categoreiddio ieithyddol ysgolion.
- Cynllunio a gweithredu brys er mwyn cynyddu nifer yr athrawon sy'n cael eu hyfforddi i addysgu yn y Gymraeg.

⁹ Llywodraeth Cymru: [Canllawiau ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg](#) - 21 Ionawr 2021 (PDF 1.5MB)

¹⁰ [Cofnod y Trafodion: Y Cyfarfod Llawn \(Pumed Senedd\) - 14 Mawrth 2017, paragraff 269](#)

¹¹ Llywodraeth Cymru: [Adolygiad brys o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg \(2017 i 2020\)](#) - 4 Awst 2017 (PDF 420KB)

- Dylid sicrhau fframwaith deddfwriaethol sy'n darparu cefnogaeth, cyngor a beirniadaeth adeiladol i'r cyrff wrth iddynt weithio i gwrdd ag unrhyw ddyletswyddau cyfreithiol yn ymwneud â chynllunio addysg (boed hynny ar ffurf CSCA neu ffurf arall).

Paratoi a chyflwyno CSCAau

21. Mae angen i awdurdodau lleol ystyried nifer o ffactorau wrth ddatblygu eu cynlluniau. Er enghraifft, mae sawl dyletswydd a rhwymedigaeth statudol y mae'n rhaid i awdurdodau eu hystyried, gan gynnwys:

- **Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008** a Chanllawiau Statudol¹² (sydd wrthi'n cael eu hadolygu¹³);
- Strategaethau Hyrwyddo 5 mlynedd a wnaed o dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015¹⁴;
- Codau trefniadaeth ysgolion¹⁵ a chodau derbyn¹⁶ i ysgolion;
- **Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018**; a
- Chynlluniau Datblygu Lleol¹⁷.

22. Bydd angen i awdurdodau lleol hefyd ystyried diwygiadau addysg, fel y Cwricwlwm newydd i Gymru, datblygu'r gweithlu, a darpariaeth ôl-16 yn eu hardal. Disgwylir y byddai cerrig milltir Cymraeg 2050 yn sbardun allweddol¹⁸ ar gyfer y cynlluniau dros y deng mlynedd nesaf.

23. Mae **Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019** (fel y'u diwygiwyd¹⁹) yn gwneud darpariaeth ar gyfer paratoi a chyflwyno cynlluniau deng mlynedd i'w cymeradwyo gan Weinidogion Cymru erbyn 31

¹² Llywodraeth Cymru: Teithio gan ddysgwyr: darpariaeth statudol a chanllawiau gweithredol – Tachwedd 2014

¹³ Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – 20 Ionawr 2023

¹⁴ Comisiynydd y Gymraeg: Safonau hybu: asesu cyrhaeddiad y strategaethau 5-mlynedd (Dogfen gyngor arferion effeithiol) – Ebrill 2021

¹⁵ Llywodraeth Cymru: Cod trefniadaeth ysgolion – 1 Tachwedd 2018

¹⁶ Llywodraeth Cymru: Y cod derbyn i ysgolion – 15 Gorffennaf 2013

¹⁷ Cymorth Cynllunio Cymru: Cynlluniau Datblygu Lleol

¹⁸ Llywodraeth Cymru: Canllawiau ar Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg – 21 Ionawr 2021 (PDF 1.5MB)

¹⁹ Yr Archifau Gwladol: Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

Ionawr 2022 fan bellaf. Bydd y Cynlluniau deng mlynedd cyntaf yn dechrau ar 1 Medi 2022 ac yn dod i ben ar 31 Awst 2032.

24. Disgwylir i awdurdodau lleol ddefnyddio methodoleg Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfrifo'r targed deng mlynedd, sy'n cael ei bennu yn y canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol²⁰. Mae'r fethodoleg yn darparu ar gyfer targed isaf ac uchaf y disgwylir i bob awdurdod lleol ei gyflawni o ran nifer y dysgwyr Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg.

25. Dylai CSCAau hefyd gael eu trefnu o amgylch saith o ddeilliannau allweddol:

- **Deilliant 1:** Mwy o blant meithrin/tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg;
- **Deilliant 2:** Mwy o blant dosbarth derbyn/pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg;
- **Deilliant 3:** Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall;
- **Deilliant 4:** Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg;
- **Deilliant 5:** Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol;
- **Deilliant 6:** Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ("ADY") yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018; a
- **Deilliant 7:** Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg.

Categoriâu ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg

26. Ar 16 Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ganllawiau newydd ar gyfer categorïddio ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Y nod yw sicrhau bod niferoedd uwch o ddysgwyr oedran ysgol yn cael y "cyfle i ddod yn

²⁰ Llywodraeth Cymru: [Canllawiau ar Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg](#) - 21 Ionawr 2021, adran 2.2 (tudalennau 10-13) ac Atodiad 2 (tudalennau 36-43) (PDF 1.5MB)

ddinasyddion dwyieithog”²¹. Fel rhan o uchelgais Cymraeg 2050 a chyflwyno Cwricwlwm newydd i Gymru, mae Llywodraeth Cymru am weld mwy o ysgolion yn “symud ar hyd y continwrm iaith trwy gynyddu faint o’r Gymraeg sy’n cael ei gynnig”²².

27. Y maes newid allweddol yw symleiddio’r categorïau drwy leihau nifer y categorïau sy’n diffinio’r ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgol i 3 yn y sector cynradd a 3 yn y sector uwchradd.

- Cyfrwng Saesneg (Categori 1);
- Dwy ffrwd (Categori 2); a
- Cyfrwng Cymraeg (Categori 3 a 3P).

28. Wrth wraidd y trefniadau newydd mae’r egwyddor ‘na ddylai ysgolion gynnig llai o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol’. Daeth y penderfyniad i newid y canllawiau ar ôl cyhoeddi **Adroddiad Adolygiad Annibynnol i ailddiffinio ysgolion yn ôl eu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg**. Mae’r Adroddiad yn gwneud cyfanswm o 10 o argymhellion.

Ymchwiliadau blaenorol

29. Yn 2015, cynhaliodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Pedwerydd Cynulliad **ymchwiliad i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg**.

30. Nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor fod llawer o randdeiliaid wedi eu siomi gan y diffyg effaith a gafodd y Cynlluniau yn ymarferol, er gwaethaf yr optimistiaeth gychwynnol ar ôl eu cyflwyno yn 2012. Roedd pryder cynyddol hefyd nad oedd y Cynlluniau’n “addas i’r diben”, ac nad oedd unrhyw beth a glywyd fel rhan o’r ymchwiliad yn “awgrymu bod Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn cydweithio ddigon”.²³

31. Nododd y Pwyllgor ar y pryd nad oedd yn glir sut roedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu cefnogi’r “gwaith cynllunio a gweithredu gwell” yr oedd ei angen i

²¹ Llywodraeth Cymru: **Datganiad Ysgrifenedig: Canllawiau ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg** – 16 Rhagfyr 2021

²² Llywodraeth Cymru: **Datganiad Ysgrifenedig: Canllawiau ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg** – 16 Rhagfyr 2021

²³ Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (Pedwerydd Cynulliad): **Ymchwiliad i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCAu)** – December 2015

gyrraedd ei thargedau, ac y byddai “angen i Weinidogion ymyrryd” pan fyddai awdurdodau lleol yn methu â chyflawni'r dyletswyddau.²⁴

32. Gwnaeth y Pwyllgor 17 o argymhellion i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys:

- Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod targedau'r Strategaeth [Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg - *wedi'i disodli erbyn hyn gan Cymraeg 2050 a **Chynllun Gweithredu Cymraeg Mewn Addysg***] yn cael eu hadlewyrchu yn y Cynlluniau Strategol a bod yn fwy cadarn wrth gymeradwyo'r Cynlluniau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu uchelgais Llywodraeth Cymru;
- Adolygu'r broses ar gyfer newid categori ysgol, gyda'r nod o'i symleiddio;
- Dylai Llywodraeth Cymru fod yn gliriach gydag awdurdodau lleol ynghylch ei disgwyliadau mewn perthynas â hyrwyddo twf addysg cyfrwng Cymraeg fel bod pob awdurdod lleol yn ymrwmo i uchelgeisiau Llywodraeth Cymru;
- Dylai'r Gweinidog ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael iddo o dan ddeddfwriaeth bresennol i ymyrryd pan fydd awdurdodau lleol yn methu â chyflawni eu Cynlluniau Strategol;
- Dylai Llywodraeth Cymru egluro hefyd beth yw'r rhesymau am y diffyg rhwng canran y lleoedd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael o dan y rhaglen Dechrau'n Deg a'i tharged i 25 y cant o blant saith oed gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2015 (a 30 y cant erbyn 2020). Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd yn mynd i'r afael â'r diffyg.

33. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r argymhellion ar 9 Tachwedd 2016²⁵.

34. Roedd y rhan fwyaf, os nad yr holl argymhellion, wedi eu derbyn neu'n destun gweithredu, er mai dim ond nawr y mae rhai'n dwyn ffrwyth. Un enghraifft yw'r newidiadau i ganllawiau ar gategorïau ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021 gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, Jeremy Miles AS²⁶.

²⁴ Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (Pedwerydd Cynulliad): [Ymchwiliad i Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg \(CSCAu\)](#) – December 2015

²⁵ [Llythyr gan Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Cydol Oes: Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg](#) – 9 Tachwedd 2016 (PDF 741KB)

²⁶ Llywodraeth Cymru [Datganiad Ysgrifenedig: Canllawiau ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg](#) – 16 Rhagfyr 2021

Barn rhanddeiliaid ar y fframwaith statudol presennol

35. Roedd y tystion y siaradasom â hwy yn ystod yr ymchwiliad, ar y cyfan, yn cytuno bod y fframwaith CSCA wedi gwella'n sylweddol ers ei sefydlu gyntaf yn 2012. Ymhlith y gwelliannau a nodwyd gan dystion mae targedau mwy realistig, canllawiau cliriach a chylch 10 mlynedd sy'n lleihau'r baich cynllunio ar awdurdodau lleol.

36. Dywedodd Estyn (arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru) wrthym fod cyflwyno cynlluniau dros gyfnod o ddeng mlynedd yn caniatáu gwell gwaith cynllunio²⁷ gan awdurdodau lleol. Cytunodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), gan ddweud wrthym fod cynghorau ar y cyfan yn fodlon ar y targedau realistig a bod eu penodoldeb yn caniatáu ar gyfer olrhain cynnydd dros y cyfnod hwy²⁸.

37. Fodd bynnag, roedd hefyd yn amlwg nad oedd y fframwaith, er ei fod wedi gwella llawer, yn gweithredu mor effeithiol ag y gallai fod. Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg nad oedd holl argymhellion Aled Roberts yn dilyn yr Adolygiad Brys wedi'u gweithredu, ond ei bod yn:

*"rhy gynnar o lawer, fodd bynnag, i wybod ag unrhyw sicrwydd beth fydd effaith y newidiadau deddfwriaethol hyn ar ddatblygiad addysg Cymraeg yn y tymor hwy."*²⁹

38. Roedd un undeb athrawon, NASUWT, o'r farn naill ai bod y system CSCA braidd yn ddiffygiol, neu nad yw gweithdrefnau ar lefel awdurdod lleol yn effeithiol. Ymhlith y rhesymau a roddwyd mae ansawdd amrywiol CSCAau pob awdurdod; manau cychwyn gwahanol ar gyfer pob ysgol; a gostyngiadau yn y cymorth i ysgolion gyflawni gofynion y CSCA.³⁰ Dywedodd undeb athrawon arall, UCAC, wrthym, er ei fod yn derbyn bod y sefyllfa ar lawr gwlad yn gwella, bod angen strwythurau cliriach a chryfach, yn ogystal â gwell defnydd o ddata ar lefel leol.³¹

²⁷ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 6 Gorffennaf 2022, paragraff 18

²⁸ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 13 Hydref 2022, paragraff 230

²⁹ Ymateb i'r ymgynghoriad: [WESP08 Comisiynydd y Gymraeg](#) (PDF 767KB)

³⁰ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 28 Medi 2022, paragraff 16

³¹ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 28 Medi 2022, paragraff 11

39. Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid o'r farn mai'r hyn sydd ei angen yw proses i gryfhau a mireinio'r fframwaith, yn hytrach na newidiadau mawr. Cyfeiriodd Comisiynydd y Gymraeg at y ffaith nad yw'r fframwaith, fel y mae, yn gyflawn, a bod angen Bil Addysg Gymraeg i adeiladu ar ddatblygiadau cadarnhaol dros y degawd diwethaf a chryfhau elfennau o'r strategaeth.³² Dywedodd Rhieni Dros Addysg Gymraeg (RhAG) wrthym:

*"Ar hyn o bryd, mae deddfwriaethau ynghylch addysg dros y lle i gyd; mae'n rhaid i ni gael un man, un Ddeddf sy'n sicrhau bod yr holl heriau hyn, a'n bod ni'n gallu sicrhau bod addysg Gymraeg yn hygyrch ac yn lleol i bob plentyn, o bump oed tan 19."*³³

40. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig³⁴, trafododd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, Jeremy Miles AS yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn y Pedwerydd Cynulliad, a'r Adolygiad Brys dilynol a gynhaliwyd gan Aled Roberts yn 2017. Un o argymhellion yr Adolygiad Brys oedd "archwilio'r deddfwriaeth sy'n sail i'r cynlluniau Cymraeg mewn addysg". Sefydlwyd Bwrdd Cynghori CSCA i fynd i'r afael â'r argymhellion. Arweiniodd hyn at Reoliadau newydd (Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019). Ymhlith y newidiadau oedd:

- Dileu'r ddyletswydd i gynnal asesiad cyfrwng Cymraeg o'r galw gan rieni;
- Ymestyn hyd y CSCA o gylch cynllunio 3 i 10 mlynedd;
- Cryfhau cysylltiadau rhwng darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg a lleoliad addysg cyfrwng Cymraeg.

41. Dywedodd y Gweinidog wrthym yn ysgrifenedig fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno Bil Addysg Gymraeg yn ystod tymor y Senedd hon, gan nodi mai pwrpas y Bil fydd "cryfhau a chynyddu darpariaeth addysg Gymraeg ledled Cymru i gyrraedd ein targedau Cymraeg 2050".

42. Yn ystod ein sesiwn graffu, dywedodd y Gweinidog wrthym, er bod CSCAau wedi'u cryfhau'n ddiweddar, "bod lle i gryfhau hyd yn oed ymhellach yr hyn sydd gennyn ni, fel y fframwaith deddfwriaethol ynghylch addysg Gymraeg. Ac felly,

³² Ymateb i'r ymgynghoriad: [WESP08.Comisiynydd y Gymraeg](#) (PDF 767KB)

³³ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 28 Medi 2022, paragraff 190

³⁴ Ymateb a thystiolaeth ysgrifenedig [Llywodraeth Cymru ar y fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi Darpariaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg](#) – 4 Tachwedd 2022

mae cyfle gyda ni yn y Bil, ond, ar hyn o bryd, rŷn ni'n edrych ar fanylion beth fyddwn ni'n bwriadu ymgynghori arno fe".³⁵ Rydym yn trafod hyn ymhellach ym mhennod 3 o'n hadroddiad ("Datblygu a darparu CSCAau").

43. Er nad oedd y Gweinidog yn gallu gwneud sylw ar fanylion y Bil arfaethedig, nododd ei fod eisiau i bob rhan o'r system addysg weithio tuag at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.

44. O ran y fframwaith presennol, dywedodd y Gweinidog wrthym fod llawer o wendidau blaenorol wedi'u datrys yn y system bresennol. Mae hyn yn cynnwys symud o asesiad galw i gynllunio rhagweithiol, a chydweithio gwell ar lefel leol gydag awdurdodau lleol yn dylunio Cynlluniau Strategol gyda phartneriaid. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog yn cydnabod y gellid gwneud mwy, megis alinio CSCAau â chynlluniau eraill y llywodraeth a buddsoddiad cyfalaf mewn ysgolion.³⁶

45. Dywedodd y Gweinidog wrthym hefyd mai un her o ran y model presennol yw'r rhwystrau daearyddol i deithio gan ddysgwyr. Mae **Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008** yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud darpariaethau penodol. Dywedodd y Gweinidog:

*"Mae rhai wedi newid eu polisïau trafnidiaeth mewn ffordd sydd efallai ddim yn cefnogi'r darlun rhanbarthol o ran addysg, os hoffwch chi, er eu bod nhw, efallai, yn cefnogi'r cynlluniau lleol sydd ganddyn nhw. Felly, mae hynny yn un elfen, rwy'n credu, sydd yn gallu bod yn heriol."*³⁷

Ein barn ni

46. Fel yr amlinellwyd, mae'r rhan fwyaf o dystion o'r farn bod y system bresennol yn welliant ar y fframwaith CSCA blaenorol, ond bod angen ei mireinio a'i diwygio ymhellach. Clywsom gan y Gweinidog fod llawer o'r gwendidau a nodwyd yn y system wedi'u datrys. Mae hyn yn cynnwys symud o asesiad a arweinir gan alw o angen addysg cyfrwng Cymraeg i system gynllunio ragweithiol ar gylch deng mlynedd, yn ogystal â gwella cydweithio rhwng partneriaid lleol. Mae newidiadau o'r fath yn sicr i'w croesawu.

³⁵ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 17 Tachwedd 2022, paragraff 14

³⁶ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 17 Tachwedd 2022, paragraffau 21-22

³⁷ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 17 Tachwedd 2022, paragraff 33

47. Yn ei hanfod, strategaeth awdurdod lleol i wella'r gwaith o gynllunio a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal honno yw CSCA. Rydym yn cytuno y dylai CSCA ganolbwyntio ar anghenion a darpariaeth leol, ac adlewyrchu barn y boblogaeth leol.

48. Fodd bynnag, rydym hefyd o'r farn bod darparu addysg cyfrwng Cymraeg mewn rhai achosion hefyd yn gofyn am ddull gweithredu a chydweithio rhanbarthol llawer ehangach. Y ddau fater allweddol sy'n amlwg yn gofyn am gydweithredu rhanbarthol yw materion sy'n codi wrth weithredu Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a mynediad at addysg ôl-16.

49. Mae'r Gweinidog wedi cydnabod rhwystrau a heriau daearyddol y fframwaith presennol, ond mae'r ffaith bod mynediad rhai dysgwyr at addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei rwystro oherwydd polisïau trafnidiaeth lleol yn peri pryder inni. Mae'n bosibl y bydd diffyg darpariaeth cludiant a'r pellter teithio yn annog rhai rhieni a phlant i beidio â mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg, gydag effaith anochel ar dargedau Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Credwn yn gryf na ddylai unrhyw riant neu warcheidwad orfod gwneud penderfyniadau am iaith addysg plentyn ar sail cludiant i'r ysgol sydd ar gael neu'r pellter i'r ddarpariaeth honno o'u cartref. Rydym yn cydnabod sylwadau'r Gweinidog ynghylch yr heriau sy'n gysylltiedig â hyn, ond yn galw ar Lywodraeth Cymru i'w hadolygu a'u hunioni cyn gynted â phosibl. Bydd aros am newidiadau i'r fframwaith neu am weithredu deddfwriaeth sylfaenol yn unig er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn yn rhy hir i lawer o ddysgwyr.

50. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad ar fyrder i nodi pa awdurdodau lleol y mae'r mater hwn yn effeithio arnynt a faint o ddysgwyr yr effeithir arnynt. Dylai'r adolygiad hefyd argymhell pa gymorth sydd ei angen i ddatrys y mater yn y tymor byr i'r tymor canolig. Rydym yn sylweddoli bod adolygiad mawr o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn cael ei ystyried ar hyn o bryd a chredwn y dylai naill ai gynnwys y materion hyn neu y dylid eu hystyried yn eu rhinwedd eu hunain.

51. Bydd unioni materion sy'n ymwneud â theithio gan ddysgwyr hefyd yn helpu i liniaru materion sy'n ymwneud â mynediad i addysg bellach, o ystyried bod llawer o golegau bellach yn estyn ar draws sawl ardal awdurdod lleol. Bydd y gwaith hwn yn ei dro yn helpu i baratoi ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol arfaethedig ar addysg cyfrwng Cymraeg.

Argymhelliaid 1. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu adolygiad cyflym ar fyrder o bolisïau trafnidiaeth pob awdurdod lleol yng

Nghymru i nodi'r meysydd sy'n atal mynediad i ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Dylai'r adolygiad hefyd argymhell pa gymorth sydd ei angen i fynd i'r afael â'r mater yn y tymor byr ac a oes angen deddfwriaeth sylfaenol bellach i'w ddatrys ai peidio yn y tymor hir. Os yw Llywodraeth Cymru o'r farn mai'r adolygiad o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yw'r ffordd fwyaf priodol o wneud hyn, yna dylai ystyried y mater hwn.

3. Datblygu a darparu CSCAau

53. Mae nifer o ffactorau'n gysylltiedig â sicrhau bod y fframwaith CSCA yn gweithio'n effeithiol. Mae'r adran hon yn edrych ar y ffactorau hyn.

Datblygu CSCAau

54. Mae'r amrywiad yn safon ac ansawdd y CSCAau yn dal i fod yn fater arwyddocaol, yn ôl tystion, ac mae'n codi cwestiynau am ddisgwyliadau ar awdurdodau lleol o fewn y fframwaith polisi a deddfwriaethol. Er bod rhywfaint o feirniadaeth o'r fframwaith ei hun, roedd beirniadaeth hefyd gan rai rhanddeiliaid o'r awdurdodau lleol.

55. Dywedodd UCAC wrthym nad yw rhai awdurdodau lleol yn cynllunio ymlaen llaw yn ddigonol, gyda'r CSCAau yn aml yn rhoi pwyslais "ar yr hyn maen nhw'n gobeithio ei wneud"³⁸ yn hytrach na beth sydd angen iddynt ei wneud.

56. Teimlai Comisiynydd y Gymraeg fod y fframwaith wedi arwain at gynlluniau strategol llawer mwy uchelgeisiol a phellgyrhaeddol, ond bod gwendidau amlwg yn nifer o'r cynlluniau drafft ar y pryd,³⁹ sy'n safbwynt a gaiff ei ategu gan y Coleg Cymraeg. Mae'r Coleg Cymraeg yn mynd ymlaen i ddatgan mai un o'r gwendidau mwyaf yw bod cynlluniau yn addo gwneud gwaith dadansoddi a chynllunio yn hytrach na'i wneud fel rhan o'r broses CSCA.⁴⁰ Mae canllawiau Llywodraeth Cymru⁴¹ ar hyn yn glir, gyda'r Coleg Cymraeg yn nodi ei fod yn codi cwestiynau difrifol am drefniadau atebolrwydd.

57. Ar y llaw arall, roedd NASUWT yn cydymdeimlo rhywfaint ag awdurdodau lleol, er yn derbyn bod yr amrywiaeth mewn ansawdd yn broblem. Fel yr amlinellwyd yn y bennod flaenorol, roedd yn datgan bod awdurdodau'n cychwyn ar eu taith o wahanol leoedd, a bod angen trosolwg cenedlaethol cryfach er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i "fedru gweld lle yn y wlad mae angen yr adnoddau fwyaf".⁴²

³⁸ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 28 Medi 2022, paragraff 23

³⁹ Ymateb i'r ymgynghoriad: [WESP08.Comisiynydd.y.Gymraeg](#) (PDF 767KB)

⁴⁰ Ymateb i'r ymgynghoriad: [WESP07.Coleg.Cymraeg.Cenedlaethol](#) (PDF 562KB)

⁴¹ Llywodraeth Cymru: [Canllawiau.ar.Cynlluniau.Strategol.Cymraeg.mewn.Addysg](#) – 21 Ionawr 2021 (PDF 1.5MB)

⁴² Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 28 Medi 2022, paragraff 77

Arweinyddiaeth a diwylliant

58. Maes arall y cyfeiriwyd ato yn ystod tystiolaeth lafar oedd y diwylliant a'r awydd gwleidyddol o fewn rhai awdurdodau lleol i fwrw ymlaen yn llawn â'r CSCAau cymeradwy a'u rhoi ar waith.

59. Nododd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol fod rhai arwyddion cadarnhaol bod y fframwaith diwygiedig wedi cael effaith gadarnhaol ar waith cynllunio CSCAau ar draws awdurdodau lleol o gymharu â'r gorffennol. Fodd bynnag, cwestiynodd y Coleg Cymraeg hefyd beth sy'n digwydd pan fo cynlluniau uchelgeisiol a nodir yn y CSCAau "yn bwrw lan yn erbyn blaenoriaethau eraill gan gyngor lleol"⁴³. Nid yw'n glir i'r Coleg ar hyn o bryd a yw'r diwylliant wedi newid yn ddigonol i sicrhau bod y fframwaith cyffredinol sy'n cefnogi amcanion y Cynlluniau yn gwrthsefyll gwyriad mewn blaenoriaethau lleol.

60. Nododd rhai rhanddeiliaid hefyd fod potensial o rwystrau ychwanegol rhag gweithredu CSCAau yn effeithiol yn lleol. Mynegodd Dyfodol i'r laith bryderon am arweinwyr addysg o fewn awdurdodau lleol:

*"Pryderu ydw i am ddylanwad cyfarwyddwyr addysg neu arweinwyr addysg mewn gwahanol siroedd ar yr holl broses. Os ydyn nhw'n gefnogol i'r Gymraeg, mae cynlluniau'n cael eu gweithredu'n dda; os dydyn nhw ddim mor gefnogol—ac rŷn ni yn Abertawe wedi cael enghreifftiau disglair o rai llai cefnogol—mae'r broses yn gallu cael ei arafu ac yn gallu bod yn anodd dros ben."*⁴⁴

61. Galwodd Dyfodol am sicrhau bod y CSCAau yn ganolog i holl bolisi addysg sir, y mae'n ei ystyried yn angenrheidiol, "fel nad yw mympwy swyddogion penodol wedyn yn cael y fath ddylanwad".⁴⁵ Gwnaeth RhAG sylwadau tebyg, gan ddweud wrthym bod angen i'r Gymraeg fod:

⁴³ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 13 Hydref 2022, paragraff 87

⁴⁴ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 28 Medi 2022, paragraff 251

⁴⁵ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 28 Medi 2022, paragraff 262

“yn ganolog i gynlluniau ein hawdurdodau lleol ni, ac nid yn rhyw fath o bolt-on ar yr ochr. Mae'n rhaid i'r cynlluniau fod yn greiddiol i gynigion addysg pob awdurdod lleol”.⁴⁶

62. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod cynnydd yn cael ei wneud ar draws gwahanol CSCAau. Dywedodd y Gweinidog hefyd ar y pryd ei fod wrthi'n cyfarfod â phob awdurdod lleol i bwysleisio unwaith eto ei ddisgwyliadau o ran y CSCAau. Dywedodd wrthym:

“Does gyda fi, ar hyn o bryd, dim unrhyw reswm i feddwl na fydd awdurdodau yn ymateb yn gadarnhaol i'r pethau y maen nhw wedi cytuno i'w wneud yn y cynlluniau. Maen nhw'n gynlluniau 10 mlynedd, wrth gwrs, am y tro cyntaf, felly, yn sicr, bydd pethau'n digwydd yn y cyfamser sydd yn mynd i fod yn newid y cyd-destun efallai ac yn gwneud pethau'n heriol.”⁴⁷

Cylch deng mlynedd

63. Mae cefnogaeth gyffredinol i symud y CSCAau o gylch tair blynedd i un dros gyfnod o ddeng mlynedd. Mae hyn yn galluogi awdurdodau lleol i gynllunio dros y tymor hwy. Fodd bynnag, roedd galwadau i sicrhau bod system gadarn ar waith ar gyfer monitro ac asesu gweithrediad y CSCAau yn y dyfodol.

64. Roedd gan Gymdeithas yr Iaith bryderon bod deng mlynedd yn gyfnod rhy hir o amser heb fecanweithiau monitro cadarn i sicrhau atebolrwydd a chynnydd awdurdodau lleol, gan nodi:

“Does dim grym statudol y tu ôl iddyn nhw. Dwi'n teimlo bod angen arweiniad cryfach a chliriach oddi wrth Lywodraeth Cymru, ac yn ogystal â hynny, mae angen i ni sicrhau bod yna drefn adolygu ac arolygu'r cynlluniau strategol yma—nid gan swyddogion oddi fewn i Lywodraeth Cymru, ond gan gorff sydd gyda'r sgiliau i fedru gwneud hynny, sef, Estyn.”⁴⁸

⁴⁶ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 28 Medi 2022, paragraff 190

⁴⁷ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 17 Tachwedd 2022, paragraff 65

⁴⁸ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 28 Medi 2022, paragraff 163

65. Yn y cyfamser, roedd Dyfodol i'r laith yn awyddus i weld targedau tymor byr, canolig a hir yn cael eu cynnwys o fewn y Cynlluniau Strategol, gyda thargedau tymor byr o bum mlynedd a thargedau tymor hwy ar gyfer 20 mlynedd.⁴⁹

66. Nododd llywodraeth leol fod cyfnod o ddeng mlynedd yn cynyddu'r risg o fethu wrth geisio cyflawni'r targedau. Nododd nad yw cynnydd yn llinol gyda mwy o gynnydd mewn rhai blynyddoedd o gymharu ag eraill. Felly, dywed fod yr angen i fonitro yn hanfodol.⁵⁰ Roedd nifer o randdeiliaid yn mynegi'r farn hon.

67. Dywedodd y Gweinidog yn ei dystiolaeth ysgrifenedig fod pob un o'r 22 Cynllun a dderbyniwyd ym mis Ionawr 2022 i'w hasesu yn cynnwys "ymrwymiad clir i'r targed 10 mlynedd a gynigwyd gan Lywodraeth Cymru".⁵¹ Nododd mai dyma'r tro cyntaf i awdurdodau baratoi Cynlluniau yn seiliedig ar dargedau Llywodraeth Cymru yn hytrach na'u targedau eu hunain. Serch hynny, mae'r Gweinidog yn cyfaddef bod angen "mwy o fewnbwn ar rai Cynlluniau drafft nag eraill". Aiff y Gweinidog yn ei flaen i nodi bod Llywodraeth Cymru wedi gosod "disgwyliadau clir i awdurdodau lleol gyrraedd eu targedau 10 mlynedd".

Monitro ac atebolrwydd gweithredu'r CSCAau

68. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd gyfreithiol i gyflwyno adroddiadau adolygu blynyddol i Weinidogion Cymru ar y cynnydd a'r camau a gymerwyd yn ystod y cyfnod hwnnw. Nododd y Gweinidog yn ei ymateb ysgrifenedig i ymchwiliad y Pwyllgor ei fod yn disgwyl i awdurdodau lleol gyflwyno cynllun gweithredu ar gyfer pum mlynedd gyntaf y Cynllun, a bydd hwn yn cael ei fonitro'n flynyddol. Mae tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru yn nodi bod y rheoliadau'n galluogi'r CSCAau i gael eu hadolygu a'u disodli o fewn y cyfnod deng mlynedd "os na wneir cynnydd priodol... sy'n ddull mwy ymatebol o fonitro ac adolygu Cynllun".⁵²

69. Roedd RhAG eisiau gweld mwy o hyblygrwydd, gonestrwydd a dewrder gan awdurdodau lleol i adolygu'r CSCAau yn ôl yr angen, ond mae eisoes yn clywed y naratif "dyw e ddim yn y CSCA".⁵³

⁴⁹ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 28 Medi 2022, paragraff 208

⁵⁰ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 13 Hydref 2022, paragraff 247

⁵¹ [Ymateb a thystiolaeth ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru](#) – 4 Tachwedd 2022 (PDF 234KB)

⁵² [Ymateb a thystiolaeth ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru](#) – 4 Tachwedd 2022 (PDF 234KB)

⁵³ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 28 Medi 2022, paragraff 212

70. Cred Cymdeithas yr Iaith fodd bynnag fod system y CSCAau wedi methu, a galwodd am “arweiniad cryfach a chliriach oddi wrth Lywodraeth Cymru” a chynlluniau gweithredu gan awdurdodau lleol. Dywedodd Cymdeithas yr Iaith fod angen system adolygu ar gyfer CSCAau ac mai Estyn, nid swyddogion Llywodraeth Cymru, ddylai wneud hynny.⁵⁴

71. Cododd y cwestiwn o ran a ddylid cael corff allanol sy'n monitro dilyniant y CSCAau hefyd yn ystod ein sesiwn dystiolaeth gydag Estyn lle gwnaethant ddweud wrthym fod potensial i'r arolygiaeth gyfrannu at y gwaith hwn. Dywedwyd wrthym fod gan Estyn “arolygwyr cyswllt” eisoes mewn awdurdodau lleol yng Nghymru, ac y gallai fod cyfleoedd i edrych ar adroddiadau blynyddol. Fodd bynnag, byddai angen sicrhau bod adnoddau ychwanegol ar gael i Estyn ar gyfer gwaith o'r fath ac eglurder pellach o'u rôl, o bosibl drwy eu llythyr cylch gwaith.⁵⁵

72. Pe bai awdurdodau lleol yn methu â chyflawni nodau eu CSCAau, dywedodd y Gweinidog wrthym:

“...byddai trafodaethau'n digwydd gyda chynghorau lleol i sicrhau bod mwy o gynnydd yn digwydd yn y cynllun. Os nad ydy hynny'n digwydd, mae gofyniad gennyf i i gyflwyno cynllun newydd. Os nad ydy hynny'n digwydd, does gennyf fi ddim gallu i allu gorfodi awdurdodau i wneud hynny.”⁵⁶

73. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y strwythur cyfreithiol yn glir os nad yw awdurdodau lleol yn cadw at eu cyfrifoldebau i ystyried yr effeithiau ar addysg cyfrwng Cymraeg wrth ddatblygu cynlluniau addysg. Mae hyn yn cynnwys “risg wedyn i'r cynlluniau sydd ganddyn nhw, fod rhwystr iddyn nhw yn gyfreithiol rhag mynd yn eu blaen”.⁵⁷

Ein barn ni

74. Mae'r gwaith o ddatblygu a darparu CSCAau yn broses gymhleth gyda nifer o ffactorau rhyngddibynnol yn dibynnu ar eu llwyddiant.

⁵⁴ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 28 Medi 2022, paragraff 163

⁵⁵ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 6 Gorffennaf 2022, paragraff 91

⁵⁶ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 17 Tachwedd 2022, paragraff 93

⁵⁷ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 17 Tachwedd 2022, paragraffau 99 a 101

Monitro ac adolygu mewn cylch deng mlynedd

75. Yn wahanol i'r fframwaith a oedd yn rhagflaenu, mae fframwaith presennol y CSCA yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynllunio eu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg dros gyfnod o 10 mlynedd. Fel rhan o'r broses hon, mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyflwyno adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru ar eu cynnydd yn erbyn eu CSCAau. Er bod cefnogaeth gyffredinol gan randdeiliaid i symud o gylch tair blynedd i gylch 10 mlynedd, cafodd amrywiaeth o bryderon eu cyfleu inni ynglŷn â hyn. Mae hyn yn cynnwys galwadau am broses gryfach ar gyfer monitro ac asesu'r gwaith o weithredu'r CSCA.

76. Rydym o'r farn ei bod yn ymddangos bod y prosesau presennol ar gyfer adolygu a monitro CSCAau yn annigonol, a bod y pwerau sydd ar gael i Weinidogion Cymru yn gyfyngedig. Dywedodd y Gweinidog wrthym, hyd yn oed yn dilyn ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru, na all Gweinidogion "orfodi awdurdodau lleol" i wneud yr hyn sy'n ofynnol. Credwn fod y fframwaith presennol yn gadael Llywodraeth Cymru braidd yn ddi-rym o ganlyniad.

77. Dywedodd y Gweinidog yn ei dystiolaeth lafar fod Llywodraeth Cymru yn ystyried a ddylid mynd i'r afael â hyn drwy'r Bil arfaethedig⁵⁸, ond pan holwyd ef ymhellach, gwrthododd roi unrhyw fanylion pellach heblaw dweud bod hyn yn cael ei ystyried a'i drafod⁵⁹.

78. Rydym o'r farn bod angen cyfres o fesurau a fydd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru fesur cynnydd y CSCAau yn rheolaidd, ac os oes angen, ymyrryd a gwneud newidiadau. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda llywodraeth leol, undebau addysg a chyrff cynrychioliadol addysg i nodi mesurau addas i wella'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer monitro'r cynnydd a wneir gan awdurdodau lleol yn eu CSCAau. Clywsom yn ystod y dystiolaeth fod lle i gorff fel Estyn wneud rhywfaint o'r gwaith hwn, ond byddai angen ystyried hyn ymhellach na'r hyn sy'n cael ei wneud yn yr ymchwiliad hwn.

79. O ystyried nad yw'r fframwaith presennol yn darparu'r pwerau angenrheidiol, rydym yn argymhell bod y Bil Addysg Gymraeg arfaethedig yn gosod y mesurau hyn ar sail statudol. Credwn y byddai gosod y mesurau hyn yn y gyfraith yn rhoi gwell eglurder i'r holl randdeiliaid sy'n rhan o'r gwaith o ddatblygu a gweithredu CSCAau.

⁵⁸ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 17 Tachwedd 2022, paragraffau 16, 76, 85 a 95

⁵⁹ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 17 Tachwedd 2022, paragraff 136

Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i nodi mesurau addas a fyddai'n gwella'r trefniadau presennol ar gyfer monitro cynnydd y CSCAau. Dylai hyn gynnwys archwilio'r posibilrwydd y gallai sefydliad, sy'n annibynnol ar y Llywodraeth, chwarae mwy o ran wrth fonitro cynnydd awdurdodau lleol yn y CSCAau.

Argymhelliad 3. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod deddfwriaeth sylfaenol arfaethedig ar addysg Gymraeg yn cynnwys mesurau a fydd yn caniatáu iddi fonitro cynnydd Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol. Dylai hyn gynnwys mesurau sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd a chymryd camau, os oes angen, lle mae'n amlwg bod awdurdodau lleol wedi methu â chyrraedd eu targedau.

Argymhelliad 4. Rydym yn argymhell datblygu fframwaith cenedlaethol i sicrhau dull cenedlaethol cyson o gynllunio a darparu addysg Gymraeg.

80. Rydym yn cytuno â'r rhan fwyaf o randdeiliaid yn yr ystyr bod y cylch 10 mlynedd i'w groesawu, ond rydym hefyd yn rhannu pryderon bod hwn yn gyfnod hir ar gyfer gweithredu. Fel y trafodwyd yn y bennod hon, er bod cefnogaeth gyffredinol i'r cylch 10 mlynedd newydd, mae peryglon posibl yn gysylltiedig â hynny. Dywedodd llywodraeth leol wrthym fod cylchoedd o'r fath mewn perygl o fethu, a dywedodd tyst arall wrthym y dylid pennu targedau rheolaidd i fonitro cynnydd.

81. Fel y cyfryw, credwn fod angen adolygiad byr i nodi'r cyfnodau amser o fewn y cylch CSCA sy'n gofyn am fonitro a thargedau ychwanegol. Unwaith y bydd y rhain wedi'u cydnabod, dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellir newid dull arfarnu presennol y CSCA i gynnwys y rhain. Dylai'r adolygiad hefyd ystyried pa rai o'r newidiadau hyn y dylid eu cynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol.

Argymhelliad 5. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad byr i nodi'r cyfnodau amser o fewn y cylch 10 mlynedd y mae angen monitro a thargedau ychwanegol arnynt. Unwaith y bydd wedi'i nodi, dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellir cynnwys hyn o fewn y dull arfarnu ar gyfer cynnydd yn erbyn CSCAau. Dylai'r adolygiad byr hefyd ystyried a ddylai'r materion hyn gael eu cynnwys ym Mil Addysg Gymraeg arfaethedig y Llywodraeth.

Arweinyddiaeth a diwylliant

82. Roedd yn amlwg o'n sesiynau tystiolaeth gyda rhanddeiliaid, er bod cynnydd wedi'i wneud yn ddiweddar, bod pryderon o hyd ynghylch a fu digon o newid o ran arweinyddiaeth mewn awdurdodau lleol o ran sut y maent yn trin CSCAau.

Dywedodd y Gweinidog wrthym ar y pryd ei fod wrthi'n cyfarfod â phob awdurdod lleol i bwysleisio ei ddisgwyliadau o ran y CSCAau.

83. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru adolygu beth arall y gall ei wneud i annog a chefnogi newid diwylliannol mewn rhai awdurdodau lleol tuag at fanteision datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eu hardal. Gallai hyn gynnwys hwyluso'r gwaith o rannu arfer da yn well gan awdurdodau lleol eraill neu drwy gonsortia rhanbarthol. Gallai hefyd gynnwys darparu cymorth ychwanegol drwy gyllid wedi'i dargedu ar gyfer 'atebion cyflym' mewn meysydd lle mae angen mwy o ddatblygu darpariaeth. Yn dilyn adolygiad o'r fath, dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ddylai unrhyw swyddogaethau newydd gael eu gosod ar sail statudol a'u cynnwys yn ei Bil Addysg Gymraeg arfaethedig.

Argymhelliad 6. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu mesurau newydd ar gyfer annog a chefnogi newid diwylliannol mewn awdurdodau lleol tuag at fanteision datblygu addysg Gymraeg yn eu hardal. Yn dilyn yr adolygiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru ystyried pa rai o'r swyddogaethau hyn ddylai gael eu gosod ar sail statudol a'u cynnwys yn ei Bil Addysg Gymraeg arfaethedig.

4. Cyllid cyfalaf

84. Mae cyllid cyfalaf yn allweddol i unrhyw raglen sy'n ceisio datblygu a chynyddu darpariaeth addysgol. Fel y cyfryw, mae llwyddiant y CSCAau yn yr un modd yn dibynnu ar ffrydiau cyllid cyfalaf digonol. Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (Ysgolion yr 21ain Ganrif yn flaenorol) yw'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid cyfalaf ar gyfer prosiectau ysgolion mawr (adeiladau newydd a gwaith adnewyddu neu estyniadau mawr), sy'n cynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae creu cysylltiadau agosach rhwng targedau yn y CSCAau a chyllid cyfalaf a grant, yn benodol mewn perthynas â ffrwd ariannu Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, yn faes sydd angen sylw pellach gan Lywodraeth Cymru.

Eglurder a chydlynu cyllid

85. Clywodd y Pwyllgor na all awdurdodau lleol bob amser ymrwymo i ddatblygiadau tymor hwy gan eu bod yn dibynnu'n fawr ar gyllid a chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru. Roedd awdurdodau lleol mewn tystiolaeth ysgrifenedig yn dweud y dylai'r ffrydiau ariannu a'r canllawiau cysylltiedig:

*"alinio gyda fframwaith a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru a'u llinell amser ar gyfer y CSCA. Byddai hyn yn helpu cynllunio ar gyfer yr hir dymor ac yn lleihau unrhyw ansicrwydd."*⁶⁰

86. Gofynnodd awdurdodau lleol hefyd am fwy o eglurder ynghylch y "ffynonellau ariannol a'r mecanwaith ariannol sydd ar gael i weithredu'r CSCA". Nodwyd bod "gormod o amwysedd o ran y grantiau gwahanol a sut yn gwmws mae'n cael ei ddefnyddio i gefnogi'r Gymraeg mewn Addysg".⁶¹

87. Mae dod â ffynonellau cyllid ynghyd yn bwysig ar gyfer darparu CSCAau yn ôl Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, a nododd:

"mae angen trefniadau cyllidebu cydlynus, hynny ydy, sicrhau bod cyllideb Llywodraeth Cymru yn hwyluso ei pholisïau. A beth mae hynny'n ei olygu ydy bod y drefn gyllido cyfalaf wedyn yn cefnogi'r CSCAau. Pendraw hynny, yn amlwg, ydy sicrhau nad oes yna ddatblygiadau newydd yn digwydd heb eu bod nhw'n gydnaws â'r CSCA lleol. Mae'n bosib bydd angen deddfu i

⁶⁰ Ymateb i'r ymgynghoriad: [WESP16 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru \(CLILC\) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru \(ADEW\)](#) (PDF 2MB)

⁶¹ Ymateb i'r ymgynghoriad: [WESP16 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru \(CLILC\) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru \(ADEW\)](#) (PDF 2MB)

sicrhau hynny, ond dyna sydd angen digwydd er mwyn gwneud yn siŵr bod y gyllideb a'r polisi yn cydlynw efo'i gilydd.”⁶²

88. Yn ogystal â hyn, roedd galwadau am system ariannu fwy cydlynol a chynaliadwy. Roedd hon yn farn a rennir gan Gomisiynydd y Gymraeg, RhAG ac awdurdodau lleol.

89. Dywedodd y Gweinidog wrthym am y camau yr oedd eisoes wedi'u cymryd i wella'r gwaith o alinio'r CSCAau â rhaglenni ariannu Llywodraeth Cymru, gan amlygu:

“dull mwy hyblyg gennym ni nawr o fuddsoddi drwy'r rhaglen gyfalaf, drwy cymunedau dysgu cynaliadwy, fel bod awdurdodau'n gallu datblygu cynlluniau yn gynt, os ydy hynny'n gweddu gyda'u cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg. Mae hynny'n creu hyblygrwydd newydd sydd yn cael ei groesawu. Bydd y cynlluniau naw mlynedd newydd sydd yn cael eu cyflwyno gan awdurdodau felly'n cyd-fynd â chyfnod 10 mlynedd y WESP, gan ei wneud yn haws felly⁶³ i'r ddau gynllun gael eu halinio'n gyffredinol.”⁶⁴

90. Nododd y Gweinidog hefyd fod cyllid cyfalaf ychwanegol wedi'i ddarparu'n benodol ar gyfer datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r cyllid hwn, sy'n ychwanegol at y rhaglen gyfalaf gyffredinol ar gyfer adeiladu ysgolion, wedi'i ariannu 100 y cant gan Lywodraeth Cymru ac mae'n dod i gyfanswm o £112 miliwn ers 2018. Dywedodd tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog y bydd y £76 miliwn cyntaf o hyn yn creu dros 3,700 o leoedd gofal plant ac ysgol ychwanegol, a 285 o leoedd mewn canolfannau neu unedau trochi hwyr ychwanegol.⁶⁵

91. Gwnaethom ofyn i Ymchwil y Senedd ddarparu gwybodaeth am gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau cyfalaf mawr mewn ysgolion ar gyfer y sectorau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn y drefn honno. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chrynhof yn y pwyntiau bwled a'r ffeithlun isod. Darperir manylion ar gyfer Band A o Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, a oedd yn rhedeg rhwng 2014/15 a 2018/19 a Band B y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

⁶² Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 28 Medi 2022, paragraff 245

⁶³ Cofnod y Trafodion: Y Cyfarfod Llawn 31 Ionawr 2023 paragraffau 339-350


⁶⁴ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 17 Tachwedd, paragraff 111

⁶⁵ [Ymateb a thystiolaeth ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru](#) - 4 Tachwedd 2022 (PDF 234KB)

bresennol, a ddechreuodd yn 2019 ac sydd i fod i redeg tan 2024. Canfu'r ymchwiliad canlynol:

- Gwariwyd 26 y cant o wariant Band A ar ysgolion cyfrwng Cymraeg, a gwariwyd 74 y cant ar ysgolion cyfrwng Saesneg.
- Gwariwyd 37 y cant o wariant Band B ar ysgolion cyfrwng Cymraeg, a gwariwyd 63 y cant ar ysgolion cyfrwng Saesneg.
- Er mwyn cyd-destun, mae 31 y cant o ysgolion Cymru yn rhai cyfrwng Cymraeg a 69 y cant yn rhai cyfrwng Saesneg (ym mis Ionawr 2023).⁶⁶
- Mae yna hefyd Grant Cyfalaf cyfrwng Cymraeg ar wahân, sy'n cynorthwyo lleoliadau cyfrwng Cymraeg yn gyfan gwbl (£112m wedi'i ddynnu ers 2018).⁶⁷

Ffigur 1: Gwariant ar raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif / Cymunedau Dysgu Cynaliadwy fesul sector cyfrwng iaith (ym mis Ionawr 2023)



* Mae'r data ym mis Ionawr 2023 ac ar gyfer Band A a Band B yn cyfeirio at brosiectau a gwblhawyd yn unig, tra bod data ar gyfer y grant cyfalaf cyfrwng Cymraeg yn cynnwys prosiectau sydd wedi'u cymeradwyo ond heb eu cwblhau eto. Noder bod gwariant ar golegau Addysg Bellach ac Ysgolion Arbennig, yn ogystal â phrosiectau sy'n cynnwys ysgolion cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg, o dan y rhaglen wedi'i ddiystyru at ddibenion y cyfrifiadau hyn.

⁶⁶ Llywodraeth Cymru, [Rhestr gyfredol o ysgolion](#).

⁶⁷ Sylwch fod yn rhaid i gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau Band A gael arian cyfatebol o 50:50 gan awdurdodau lleol, tra bod cyfradd cyfraniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau Band B yn 65 y cant (gyda chyfraddau uwch o 75 y cant ar gyfer ysgolion arbennig ac 85 y cant ar gyfer ysgolion â chymeriad crefyddol). Mae Llywodraeth Cymru yn talu 100 y cant o gostau prosiectau a gefnogir o dan y Grant Cyfalaf cyfrwng Cymraeg.

Cymhelliant

92. Awgrymodd Estyn mewn tystiolaeth lafar y dylid clymu ad-drefnu ysgolion a'r posibilrwydd o gais llwyddiannus am gyllid cyfalaf i CSCAau yr awdurdod lleol hwnnw, a fyddai'n "abwyd i awdurdodau wneud yn siŵr bod unrhyw gynlluniau sydd ganddyn nhw i agor ysgolion newydd neu i ad-drefnu mewn ffyrdd gwahanol—bod y cyllid yn dilyn yr awydd a'r targedau sydd ganddyn nhw yn eu cynlluniau strategol".⁶⁸

93. Gyda fframwaith y CSCA bellach wedi'i gyflwyno dros gyfnod o 10 mlynedd, mae'r angen am alinio cyllid cyfalaf a chyllid grant yn bwysicach. Yr her i awdurdodau lleol ar hyn o bryd yw nad yw cyllid grant Llywodraeth Cymru yn para am gyfnod llawn y CSCA, sy'n ei gwneud yn anodd gweithredu'n llawn neu ymrwymo i'w huchelgeisiau hirdymor.

94. Nododd CCAC (Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru) hefyd yr angen i alinio grantiau a chyllidebau i gefnogi ysgolion i symud ar hyd y continwwm iaith (newid categorïau yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg – gweler paragraff 153):

"os rŷn ni o ddifri ynglŷn â symud ysgolion ar hyd y categorïau yma, mae yna gost real o symud ysgol o gategori 1 drwy T2 mewn i 2...Maen nhw'n gostau real, maen nhw'n gostau refeniw, ac maen nhw'n gostau dros gyfnod o amser. Felly, ble rŷn ni'n alinio yr adnoddau sydd gyda ni o ran grantiau efallai mewn un man, fel bod y grantiau yma yn gerbyd gwirioneddol fel ffynhonnell i gwrdd â thargedau'r CSCAau?"⁶⁹

95. Cytunodd CLILC, gan nodi bod angen "ffocysu'r gefnogaeth ariannol ar yr ysgolion trosiannol yna yng nghategorïau T2 a T3"⁷⁰, gan wobrwyo cynghorau sydd ar y daith.

96. Nododd y Gweinidog yn ei bapur tystiolaeth fod Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 wedi newid y cylch cynllunio statudol o 3 i 10 mlynedd er mwyn:

⁶⁸ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 6 Gorffennaf 2022, paragraff 54

⁶⁹ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Hydref 2022, paragraff 262

⁷⁰ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Hydref 2022, paragraff 263

“annog gwell cynllunio strategol sy'n cyd-fynd nid yn unig â Cymraeg 2050, ond hefyd â rhaglenni cyllido Llywodraeth Cymru (e.e. rhaglenni cyllido cyfalaf, Dechrau'n Deg).”⁷¹

97. At hynny, mae'r Gweinidog wedi cymeradwyo “dull newydd o fuddsoddi drwy'r Rhaglen ar gyfer y dyfodol” yn ddiweddar drwy raglen ariannu cyfalaf Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, a fydd yn galluogi awdurdodau i “symud eu cynlluniau cyfalaf yn eu blaen mewn dull mwy hyblyg”. Bydd yn ofynnol i bob awdurdod gyflwyno cynllun buddsoddi 9 mlynedd erbyn mis Mawrth 2024 a fydd yn cael ei asesu yn erbyn y CSCAau cymeradwy.⁷²

98. Wrth graffu ar ei waith, dywedodd y Gweinidog:

“Dwi wedi dweud eisoes yn y llythyron dwi wedi'u danfon at awdurdodau lleol yn cymeradwyo'u cynlluniau strategol nhw fod y cynlluniau buddsoddi ehangach yn cael eu hasesu yn erbyn y CSCAau i sicrhau aliniad. Felly, mae'r cysylltiad hwnnw nawr wedi cael ei wneud. Mae'r disgwyliad yn glir, a dwi wedi bod yn ailbwysleisio hynny yn y trafodaethau un wrth un rwyf wedi bod yn eu cael gydag arweinwyr unigol.”⁷³

Ein barn ni

99. Clywsom fod gan Lywodraeth Cymru gyllideb gyfalaf cyfrwng Cymraeg benodedig, y mae'n ei defnyddio i ddarparu grantiau, nad oes yn rhaid i awdurdodau lleol roi arian cyfatebol iddynt. Mae hyn yn ychwanegol at y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, lle mae Llywodraeth Cymru yn talu rhwng 65 ac 85 y cant o gostau'r prosiect ac awdurdodau lleol yn talu am y gweddill.⁷⁴

100. Credwn fod yna fantais i gynnal cronfa ar wahân o gyllid o fewn y gyllideb bresennol ar gyfer Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, yn enwedig gan nad oes rhaid i awdurdodau lleol ariannu grantiau cyfatebol. Rydym yn pryderu, pe bai hwn yn cael ei ddileu, y gallai swm y cyllid a ddyrennir i gefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg gael ei leihau. Nid yw hynny'n dweud y byddai'n digwydd, ond rydym yn meddwl bod y system bresennol yn cydnabod y pwysigrwydd a roddir ar gefnogi awdurdodau lleol i ddatblygu eu darpariaeth, ac y dylid ei chynnal yn y tymor hir. I osgoi unrhyw amheuaeth, dylai'r

⁷¹ [Ymateb a thystiolaeth ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru](#) – 4 Tachwedd 2022 (PDF 234KB)

⁷² [Ymateb a thystiolaeth ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru](#) – 4 Tachwedd 2022 (PDF 234KB)

⁷³ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 17 Tachwedd 2022, paragraff 113

⁷⁴ Llywodraeth Cymru: [Cymunedau Dysgu Cynaliadwy: canllawiau achos busnes](#) – 20 Hydref 2022

grant cyfrwng Cymraeg penodedig fod yn ychwanegol at y gronfa gyffredinol, y dylai prosiectau cyfrwng Cymraeg barhau i dderbyn eu cyfran deg ohoni.

101. Rydym hefyd yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried sut y gall gymell awdurdodau lleol ymhellach, drwy raglenni cyllid cyfalaf. Ni wnaeth ein hymchwiliad archwilio'r mater hwn yn ddigon manwl i wneud argymhellion penodol ar pa gymhellion y dylid eu cael.

102. Er gwaetha'r rhaglen fuddsoddi helaeth a amlinellwyd uchod, a galwadau am fuddsoddiad pellach, rydym yn cydnabod yr heriau sydd o flaenau Llywodraeth Cymru o ran ariannu gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, heb fuddsoddiad parhaus mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn syml iawn, ni ellir cyflawni nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymraeg 2050, yn ein barn ni.

Argymhelliad 7. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal cronfa gyfalaf addysg cyfrwng Cymraeg benodedig o fewn cyllideb Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, yn ogystal â'r cymorth y mae prosiectau cyfrwng Cymraeg yn ei gael o'r gronfa gyffredinol.

5. Cynyddu dysgu Cymraeg yn y sector cyfrwng Saesneg

103. Mae'n amlwg na ellir gwireddu'r uchelgais o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 drwy'r sector addysg cyfrwng Cymraeg yn unig. Mae canran y plant sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg fel iaith gyntaf neu sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf wedi aros yn sefydlog dros y degawd diwethaf (rhwng 22-24 y cant). Bydd targed presennol Llywodraeth Cymru o sicrhau bod 70 y cant o ddysgwyr yn gallu siarad Cymraeg pan fyddant yn gadael yr ysgol, o ganlyniad, yn gofyn am newidiadau pellgyrhaeddol o ran addysgu'r Gymraeg yn y sector cyfrwng Saesneg. Mae tystiolaeth yn awgrymu y bydd hyn yn heriol, ond yn gyraeddadwy gyda digon o fuddsoddiad a chynllunio.

Darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector cyfrwng Saesneg

104. Mynegodd bron pob tyst y farn bod datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn y sector cyfrwng Saesneg yn hollbwysig er mwyn cyrraedd targed Cymraeg 2050. Fodd bynnag, galwodd Cymdeithas yr Iaith am i holl ddarpariaeth addysg Cymru gael ei chyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2050:

“Yn ein barn ni, dylai pob ysgol fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg erbyn 2050, a beth sydd ei angen ydy cynllunio i sicrhau hynny. Ddylen ni ddim bod yn agor ysgolion cyfrwng Saesneg newydd. Dylai pob ysgol newydd un ai bod yn un Gymraeg neu'n ddwyieithog.”⁷⁵

105. Nododd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yr her sylweddol sydd o'n blaenau os yw'r sector cyfrwng Saesneg am gynhyrchu'r niferoedd o siaradwyr Cymraeg rhugl sydd eu hangen, gan nodi “bod gyda ni bellter i fynd. Mae'n mynd i fod yn anodd”.⁷⁶

106. Er mwyn llwyddo, bydd angen pwyslais sylweddol ar ddatblygiad athrawon a chodi lefelau sgil a hyfedredd o fewn y proffesiwn. Mae nifer o gynlluniau i gefnogi datblygiad athrawon, gan gynnwys y Cynllun Sabothol sy'n rhoi amser i staff i

⁷⁵ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 28 Medi 2022, paragraff 243

⁷⁶ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Hydref, paragraff 189

ffwrdd o'r ystafell ddosbarth i ymgymryd â hyfforddiant sgiliau Gymraeg a throchi. Dywedodd Mudiad Meithrin wrthym:

*"Mae angen sicrhau bod gan bob aelod o staff sydd yn gweithio ar draws y sector Saesneg y cyfle i ddatblygu'r sgiliau yna... tra bod angen, o bosib, ystyried ehangu defnydd y cyfnod sabothol i rai o'r athrawon yna yn y sector yna i allu datblygu'r sgiliau a'r hyder i gyflwyno'r Gymraeg."*⁷⁷

107. Yn dilyn cyhoeddi data Cyfrifiad 2021, tynnodd nifer o randdeiliaid sylw fod rôl y sector cyfrwng Saesneg a symud ysgolion ar hyd y continwrm ieithyddol yn hanfodol os am wyrdroi canlyniadau'r Cyfrifiad. Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg fod y canlyniadau yn dangos mai "cyfyngedig iawn yw cyfraniad y sector cyfrwng Saesneg i'r nod"⁷⁸ o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Roedd ymateb NASUWT yr un mor gadarn yn ei asesiad o'r hyn y mae canlyniadau'r Cyfrifiad yn ei ddangos yn ôl pob golwg, gan ddweud bod ei aelodau wedi dweud wrtho nad oes unrhyw dystiolaeth ar hyn o bryd sy'n awgrymu y bydd disgyblion addysg cyfrwng Saesneg yn siaradwyr rhugl.⁷⁹ Mae NASUWT yn honni bod colli arian grant penodol gan Lywodraeth Cymru (cafodd y grant Cymraeg mewn Addysg a oedd wedi'i neilltuo'n flaenorol ei symud i Grant Gwella Addysg mwy cyffredinol yn 2015) wedi effeithio ar allu awdurdodau lleol i gefnogi'r rhai yn y sector cyfrwng Saesneg.

108. Ym mis Hydref, cyhoeddodd y Gweinidog **Fframwaith ar gyfer y Gymraeg mewn addysg cyfrwng Saesneg**. Mae'r Fframwaith, a ddatblygwyd gan ymarferwyr a rhanddeiliaid "wedi'i ddatblygu i helpu ysgolion a lleoliadau cyfrwng Saesneg feithrin gwir bwrpas ar gyfer dysgu ac addysgu dilys ar gyfer y Gymraeg yn eu cwricwlwm"⁸⁰. Yn ystod tystiolaeth lafar, dywedodd y Gweinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru am gefnogi hyn gydag adnoddau ychwanegol i ganiatáu i athrawon ddefnyddio'r fframwaith.⁸¹

109. Fodd bynnag, roedd y Gweinidog yn cydnabod maint yr her o ran staffio i gyflawni eu nodau. Dywedodd wrthym:

⁷⁷ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Hydref 2022, paragraff 194

⁷⁸ Ymateb i'r ymgynghoriad: [IOCD09 Comisiynydd y Gymraeg](#) (PDF 868KB)

⁷⁹ Ymateb i'r ymgynghoriad: [IOCD07 NASUWT](#) (Saesneg yn unig) (PDF 1MB)

⁸⁰ Llywodraeth Cymru: [Fframwaith ar gyfer y Gymraeg mewn addysg cyfrwng Saesneg](#) - 18 Hydref 2022

⁸¹ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 17 Tachwedd 2022, paragraff 118

“...dyna pam mae'r cysylltiad rhwng y cynllun recriwtio 10 mlynedd a'r WESPs mor bwysig ar un llaw, a dyna pam hefyd mae'r elfen o berchnogaeth leol, nid jest, fel petai, i ddelifro'r CSCAau, ond hefyd i sicrhau bod cyflenwad o staff ar gael—mae dimensiwn lleol i hynny hefyd yn bwysig.”⁸²

Categoriâu ysgol a chontinwrm iaith

110. Mae canllawiau newydd⁸³ ar gategoreiddio ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ceisio symleiddio'r broses o gategoreiddio ysgol drwy leihau nifer y categorïau sy'n diffinio'r ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgol. Fodd bynnag, gan eu bod wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ychydig cyn yr oedd awdurdodau lleol i fod i gyflwyno eu CSCAau drafft, dim ond ychydig ohonynt oedd wedi cynnwys materion yn ymwneud â'r mater hwn ynddynt. I unioni hyn, gofynnodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg am ddiwygiadau pellach i'r CSCAau gan bob awdurdod lleol dros yr haf.

111. Nid oedd un farn gydlynol ymhlith rhanddeiliaid ynghylch a ddylid gosod gategoreiddio ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar sail statudol. Mae'r canllawiau ar hyn o bryd yn anstatudol, ond maent yn nodi'r trefniadau ar gyfer gategoreiddio ysgolion yn ôl maint y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol. Mae'r canllawiau yn nodi:

“Un o'r egwyddorion craidd wrth gyflwyno'r trefniadau newydd yw na ddylai ysgolion gynnig llai o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol nag a wnaed yn y gorffennol.”⁸⁴

112. Mynegodd UCAC ei siom gyda'r diffyg cynnydd o ran gategoreiddio ysgolion a gwanhau'r nod i symud ysgolion ar hyd y continwrm. Nododd nad oedd yr ymatebion a welwyd yn ddigonol ar hyn o bryd, ac edrychai ymlaen at weld cynigion yn y Papur Gwyn ar gyfer y Bil Addysg Gymraeg arfaethedig.⁸⁵

113. Dywedodd NASUWT mewn tystiolaeth lafar bod ysgolion yn ddiolchgar nad yw'n ofyniad statudol o ystyried yr amgylchiadau ariannol presennol. Os bydd y Bil

⁸² Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 17 Tachwedd 2022, paragraff 119

⁸³ Llywodraeth Cymru: [CATEGOREIDDIO YSGOLION YN ÔL Y DDARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG](#) – 16 Rhagfyr 2021

⁸⁴ Welsh Government: [Canllawiau ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg](#) – 16 Rhagfyr 2021 (PDF 1MB)

⁸⁵ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 28 Medi 2022, paragraff 90

arfaethedig yn cynnwys darpariaethau ar gyfer hyn, byddai angen cymorth ac adnoddau ar ysgolion.⁸⁶

114. Dywedodd ASCL wrthym:

"I wouldn't particularly go down the route of statutory requirement. We need hearts and minds to be won with this. However, what I would say is that I do have schools here saying they just don't know what is required of them to move along that continuum."⁸⁷

115. Ychwanegodd:

"I would say there are some quick wins that could happen, but they again will require time. That professional learning offer needs to be very high quality; it needs to be very compelling and it needs to be something that people really want to do."⁸⁸

116. Rhannodd Cymdeithas yr Iaith, Dyfodol i'r iaith ac UCAC rai pryderon am y drefn newydd o gategoreiddio ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Galwodd Dyfodol ar Lywodraeth Cymru i ailedrych ar y drefn er mwyn sicrhau ei bod yn "adlewyrchu'r dymuniad a fydd yn hybu addysg Gymraeg ar draws y sector"⁸⁹. Dywedodd Cymdeithas yr Iaith fod y system wedi profi ei bod yn "gam yn ôl"⁹⁰ mewn ardaloedd fel Gwynedd. Yn yr un modd, nododd UCAC ei bryderon y byddai'r system newydd yn galluogi ysgolion dwyieithog i ddisgrifio eu hunain fel ysgolion cyfrwng Cymraeg, hyd yn oed os nad yw'r ddarpariaeth yn gyfan gwbl yn Gymraeg.⁹¹

117. Nododd y Gweinidog yn ei dystiolaeth ysgrifenedig fod "sawl awdurdod wedi gwneud ymrwymadau clir yn eu CSCA i symud eu hysgolion cyfrwng Saesneg neu ddwy iaith ar hyd continwrm ieithyddol drwy newid categori iaith ysgolion". Mae'r Gweinidog yn honni nad yw'r ymrwymadau hyn yn cael eu gwneud yn

⁸⁶ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 28 Medi 2022, paragraff 100

⁸⁷ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 28 Medi, paragraff 98

⁸⁸ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 28 Medi, paragraff 93

⁸⁹ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 28 Medi, paragraff 251

⁹⁰ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 28 Medi, paragraff 253

⁹¹ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 28 Medi, paragraff 90

ysgafn, ond “nid heb eu heriau”. Mae'r papur yn ddiweddarach yn nodi bod wyth awdurdod wedi ymrwymo i symud un neu fwy o ysgolion ar hyd y continwwm.⁹²

118. Pan ofynnwyd iddo yn ystod ein sesiwn graffu, a ddylai fod yn destun pryder mai dim ond wyth awdurdod lleol sydd wedi gwneud ymrwymadau clir i fwrw ymlaen â'r continwwm, ymatebodd y Gweinidog:

“Dwi ddim yn credu. Mae hynny'n uchelgeisiol; byddwn i ddim yn disgwyl gweld yr un proffil ym mhob awdurdod lleol. Mae rhai awdurdodau lleol lle ysgolion cyfrwng Cymraeg ar lefel gynradd yw'r unig rai sydd ganddyn nhw, felly mae'r darlun yn wahanol ym mhob rhan o Cymru.”⁹³

Ymgysylltu a dull gweithredu i bob oed o ran cynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg

119. Roedd yr ymchwiliad yn y Pedwerydd Cynulliad⁹⁴ yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda llywodraeth leol a rhanddeiliaid i “gryfhau rôl fforymau (Fforwm Cynllunio Cymraeg mewn Addysg)”. Dywed Estyn yn ei dystiolaeth bod y dystiolaeth ledled Cymru yn awgrymu na fu newid mawr o ran faint o ddylanwad mae'r fforymau wedi ei gael at ei gilydd. Nododd Estyn hefyd wrth roi tystiolaeth ar lafar fod rôl fforymau a chydweithio “yn ganolog i'r rhai gorau sydd wedi cael eu cyflwyno”.⁹⁵

120. Mae diffyg cydweithio a chydweithredu effeithiol, yn ôl Estyn, yn golygu bod cyfleoedd wedi eu colli i wella a chydlyn cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg – er enghraifft, y ddarpariaeth ôl-16.⁹⁶ Ategir y farn hon gan Colegau Cymru, sy'n nodi y gallai perthynas ac ymgysylltiad parhaus awdurdodau lleol â rhai colegau gael eu cryfhau'n sylweddol, er bod arwyddion o welliant mewn rhai meysydd.⁹⁷

121. Amlygwyd graddau amrywiol yr ymgysylltiad â'r sector addysg bellach gan Colegau Cymru yn ystod tystiolaeth lafar:

⁹² Ymateb a thystiolaeth ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru – 4 Tachwedd 2022 (PDF 234KB)

⁹³ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 17 Tachwedd 2022, paragraff 132

⁹⁴ Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (Y Pedwerydd Cynulliad): [Ymchwiliad i Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg \(CSCAu\)](#) – Rhagfyr 2015 (PDF 1.1MB)

⁹⁵ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 6 Gorffennaf 2022, paragraff 18

⁹⁶ Ymateb i'r ymgynghoriad: [WESP01 Estyn](#) (PDF 335KB)

⁹⁷ Ymateb i'r ymgynghoriad: [WESP05a Colegau Cymru](#) (Saesneg yn unig) (PDF 1MB)

*"Mae yna un coleg yn ne-orllewin Cymru y mae eu cynllun addysg Gymraeg nhw rŵan yn rhan o'r WESP, oherwydd eu bod nhw wedi bod yn rhan annatod o ddatblygu'r WESP. Dwi'n bennaeth ar goleg lle mae gyda ni brofiadau hollol wahanol ar draws tri awdurdod. Dydyn ni ddim hyd yn oed ar un o bwyllgorau monitro'r WESP mewn un awdurdod a dydyn nhw ddim wedi ymgynghori efo ni o gwbl; mae awdurdod arall wedi ymgynghori'n sylweddol efo ni ac rydyn ni wedi rhoi geiriad ar gyfer y WESP; ac mae yna un arall wedi ymgynghori efo ni ac wedi anwybyddu beth rydym ni wedi ei ddweud."*⁹⁸

122. Pwysleisiodd Mudiad Meithrin pa mor bwysig yw cynnwys gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar wrth gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r broses CSCAau. Roeddent yn tynnu sylw at wahaniaeth canfyddedig rhwng y ddau sector, er nad yw teuluoedd yn gweld gwahaniaeth rhyngddynt. Ar gyfer Mudiad Meithrin, mae angen ystyried sut mae plant yn cyrraedd darpariaeth ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg a beth sydd angen digwydd cyn hynny er mwyn cynhyrchu niferoedd digonol o ddisgyblion. Amlygwyd hefyd bwysigrwydd cadw'r plant hyn o fewn y system addysg cyfrwng Cymraeg, a sicrhau dilyniant ieithyddol.⁹⁹

123. Nododd RhAG fod fforymau effeithiol yn hanfodol os yw CSCAau i lwyddo, gyda llais lleol cryf o fewn y broses.¹⁰⁰

124. Dywedodd swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wrthym fod:

*"yr ymgysylltu lefel lleol yna'n hanfodol, nid jest wrth ddatblygu'r cynlluniau, ond wrth iddyn nhw gael eu gweithredu a symud ymlaen hefyd, a buaswn i'n disgwyl bod y dystiolaeth a'r sylwadau lleol yna yn gyfraniad wedyn tuag at fonitro'r cynlluniau wrth symud ymlaen. Mae'n hanfodol."*¹⁰¹

125. Cytunodd swyddfa Comisiynydd y Gymraeg hefyd fod rhyngweithio ac ymgysylltu ar lefel leol yn chwarae rhan bwysig wrth ddatblygu'r CSCAau, ond y

⁹⁸ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 13 Hydref 2022, paragraff 207

⁹⁹ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 13 Hydref 2022, paragraffau 109-110

¹⁰⁰ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 28 Medi 2022, paragraffau 202-203

¹⁰¹ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 28 Medi 2022, paragraff 259

dylai hyn ymestyn i fonitro gweithrediad y cynllun gan awdurdodau lleol ac ysgolion.¹⁰²

126. Gwahoddwyd aelodau o Fforymau CSCA ledled Cymru i gymryd rhan mewn grŵp ffocws a drefnwyd gan dîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd. Mae adroddiad cryno wedi'i baratoi.¹⁰³ Ymhlith y materion allweddol sy'n codi o'r gwaith ymgysylltu mae:

- Gormod o fforymau (gan gynnwys is-grwpiau/pwyllgorau);
- Ansicr pa ddylanwad a gaiff y fforymau ar benderfyniadau;
- Dealltwriaeth gyfyngedig o'r materion ar lefel wleidyddol;
- Newid a chynnydd yn rhy araf.

127. Nododd y Gweinidog fod gofyniad yn Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 awdurdodau lleol "nodi sut roeddent yn gweithio mewn partneriaeth â'u Fforwm Cynllunio Cymraeg mewn Addysg er mwyn paratoi Cynllun yr awdurdod a goruchwylio'r gwaith o weithredu a gwerthuso'r Cynllun yn y dyfodol"¹⁰⁴. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gosod unrhyw ofynion ar awdurdod i sefydlu fforwm na'r pwysau y dylai awdurdod ei roi ar unrhyw argymhellion y mae'n eu gwneud.

128. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd y Gweinidog wrthym fod gofyniad am y tro cyntaf i'r CSCAau edrych "o'r blynyddoedd cynnar trwodd i flynyddoedd hwyr". Nododd fod y trosglwyddiad o'r blynyddoedd cynnar i addysg statudol yn uchel, a bod yn rhaid i'r CSCAau bellach nodi targedau ar gyfer y blynyddoedd cynnar. O ran addysg ôl-16, derbyniodd y Gweinidog fod y sefyllfa'n wannach. Dywedodd fodd bynnag, fod yna ddyletswyddau ar y Comisiwn Addysg Drydyddol newydd i gynyddu niferoedd a chwmpas addysg chweched dosbarth. Daeth i'r casgliad bod pethau'n symud ymlaen drwy gyfuniad o'r CSCAau newydd a'r Comisiwn.¹⁰⁵

Ein barn ni

129. Mae Fforymau Cynllunio Cymraeg mewn Addysg, lle maent wedi'u sefydlu, yn chwarae rhan annatod wrth gynghori a chefnogi gwaith yr awdurdod lleol wrth

¹⁰² Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 28 Medi 2022, paragraff 259

¹⁰³ [Crynodeb o waith ymgysylltu'r ymchwiliad](#)

¹⁰⁴ [Ymateb a thystiolaeth ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru](#) - 4 Tachwedd 2022 (PDF 234KB)

¹⁰⁵ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - 17 Tachwedd 2022, paragraff 34

ddatblygu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Fodd bynnag, nid yw pob awdurdod wedi sefydlu fforwm yn eu hardal, sy'n atal mewnbwn hanfodol gan y rhai sydd â'r wybodaeth a'r arbenigedd ym maes cynllunio iaith ac angen yn y gymuned.

130. Pan fo fforymau wedi'u sefydlu, nid yw eu rôl bob amser yn glir, gyda dulliau anghyson yn cael eu defnyddio'n lleol. Mae'r pwyslais a roddir ar waith a rôl y fforymau yn wahanol ym mhob maes, gyda rhai pobl sy'n ymwneud â'r fforymau yn dweud wrthym nad ydynt yn siŵr pa fath o ddylanwad y mae'r fforymau'n ei gael.

131. Clywsom hefyd fel rhan o'n gwaith ymgysylltu fod capasiti sefydliadau sy'n mynychu fforymau dan bwysau, gyda rhai yn mynd i sawl fforwm ar draws eu rhanbarth penodol. Clywsom am rai awdurdodau lle mae is-bwyllgorau wedi'u sefydlu i fwydo i mewn i'r prif fforwm, sy'n ymestyn adnoddau ymhellach. Mewn un ardal awdurdod lleol, dywedwyd wrthym fod 'argyfwng hunaniaeth' gyda gormod o fforymau. Galwodd un unigolyn am ailstrwythuro'r fforymau, ac o bosibl sefydlu grŵp ymbarél strategol CSCA.

132. Nid ydym yn credu bod y fframwaith presennol ar gyfer y Fforymau Cynllunio Cymraeg mewn Addysg yn ddigon cadarn na strwythuredig, gydag ychydig neu ddim cysondeb ledled Cymru. Nid yw awdurdodau lleol yn harneisio potensial y Fforymau, a phrin yw'r dystiolaeth o effaith neu ddylanwad y fforymau sy'n bwydo drwodd i ddatblygiad y CSCAau yn lleol.

133. Mae cwestiynau hefyd ynghylch rôl y fforymau, lle maent wedi'u sefydlu, wrth fonitro ac adolygu cynnydd awdurdodau lleol gyda'u CSCAau. Mae'r newid o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg o gylch tair i ddeng mlynedd yn gofyn am graffu ac atebolrwydd agosach ar ddarpariaeth awdurdodau lleol.

134. O ystyried hyn oll, credwn y dylai Llywodraeth Cymru adolygu rôl Fforymau Cynllunio Cymraeg mewn Addysg yn y broses o ddatblygu a monitro CSCAau. Dylai hyn gynnwys ystyried y gwahaniaeth yn y strwythurau a ddefnyddir mewn gwahanol awdurdodau lleol yng Nghymru. Yn ogystal, gan nad ydym yn meddwl bod y Fforymau presennol yn ddigon cadarn na strwythuredig, dylai Llywodraeth Cymru roi sail statudol i Fforymau o'r fath. Credwn y bydd cam o'r fath yn helpu i sicrhau bod gan bob awdurdod lleol fforwm cryf ar waith i roi cyngor ac i fonitro cynnydd CSCA. Yn olaf, credwn y bydd datblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer Fforymau CSCA yn sicrhau strwythur cyson ac ystyrlon ledled Cymru.

Argymhelliad 8. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu rôl Fforymau yn y broses o ddatblygu a monitro CSCAau, ac asesu strwythurau ac effaith amrywiol Fforymau ledled Cymru.

Argymhelliad 9. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gosod Fforymau Cynllunio Cymraeg mewn Addysg ar sail statudol, gan sicrhau bod gan bob awdurdod lleol yng Nghymru Fforwm ar waith i gynghori a monitro cynnydd CSCAau yr awdurdod.

Argymhelliad 10. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer Fforymau Cynllunio Cymraeg mewn Addysg, gan sicrhau strwythur cyson a phwrsasol ledled Cymru.

135. Clywsom hefyd am ddiffyg cydweithio canfyddedig rhwng rhai awdurdodau â darparwyr addysg cyn ac ôl-16, sy'n peri pryder i ni. Er bod arwyddion bod llawer o awdurdodau lleol bellach yn cynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg o'r blynyddoedd cynnar hyd at addysg a hyfforddiant ôl-16, mae hyn yn parhau i fod yn dameidiog ac yn anghyson ledled Cymru. Mae'r diffyg cydlynu a chydweithio effeithiol gyda'r holl bartneriaid yn golygu bod cyfleoedd wedi'u colli i sicrhau bod dilyniant ieithyddol i blant o leoliadau gofal plant a blynyddoedd cynnar hyd at leoliadau ôl-16. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i annog pob awdurdod lleol i weithio'n agos gyda phartneriaid yn y sectorau cyn ac ôl-16 i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn lleol. Credwn hefyd y dylai fod gofyniad statudol ar awdurdodau lleol i gynnwys y sectorau hyn ar gyfer datblygu CSCAau yn y dyfodol.

Argymhelliad 11. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi a hwyluso cydweithio agosach rhwng awdurdodau lleol a phartneriaid yn y sectorau blynyddoedd cynnar ac ôl-16 i ddatblygu darpariaeth Gymraeg yn lleol.

Argymhelliad 12. Rydym yn argymell y dylai fod yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori a chydweithio â darparwyr addysg blynyddoedd cynnar ac ôl-16 yn eu hardaloedd lleol ac ar draws y rhanbarth wrth ddatblygu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn y dyfodol.

6. Adnoddau staffio

136. Mewn nodyn briffio gan Gomisiynydd y Gymraeg¹⁰⁶ yn 2020, awgrymwyd bod yr her o sicrhau niferoedd digonol o athrawon cyfrwng Cymraeg yn “un anferthol”. Rhybuddiodd fod “perygl gwirioneddol y bydd diffyg athrawon cyfrwng Cymraeg yn tanseilio” agenda strategaeth Cymraeg 2050. Galwodd y diweddar Gomisiynydd y Gymraeg, Aled Roberts, am “ymyrraeth sylweddol a newid meddylfryd llwyr”.

Y Gweithlu Addysg

137. Mae'r CSCAau yn chwarae rhan bwysig yn y fframwaith i ddatblygu gallu o fewn y gweithlu cyfrwng Cymraeg. Mae'n ofynnol i awdurdodau nodi eu gofynion gweithlu cyfrwng Cymraeg o dan Ganlyniad 7:

“Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg.”¹⁰⁷

138. Mae hefyd yn ofynnol i awdurdodau weithio allan unrhyw ddiffyg a ragwelir dros oes y Cynllun.

139. Dywedodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol wrthym fod datblygu'r gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg “tu hwnt i rôl a chyfrifoldebau'r awdurdodau lleol”. Dywedodd fod angen i waith cynllunio'r gweithlu ddigwydd ar lefel genedlaethol, ond gyda chefnogaeth ar lefel ranbarthol a lleol.¹⁰⁸

140. Mae'r **Cynllun Gweithlu Cymraeg Mewn Addysg**, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2022, yn datgan y bydd yn dadansoddi'r CSCAau ac yn gweithio gydag ysgolion ac awdurdodau i wella dadansoddi data ar lefel leol. Bydd hefyd yn ceisio sicrhau bod CBGY (Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion) yn cael ei gwblhau'n flynyddol a'i fod yn adlewyrchiad cyfredol o sgiliau gweithlu addysgu'r genedl.

141. Serch hynny, mae awdurdodau lleol wedi dweud wrthym yn eu tystiolaeth ysgrifenedig fod angen gwella mesurau casglu data, a hynny er mwyn cael data amserol a dibynadwy i gefnogi cynllunio effeithiol. Byddai'r gofyniad am ddata mwy penodol hefyd yn cynorthwyo awdurdodau i gynllunio a chymhwyso

¹⁰⁶ Gomisiynydd y Gymraeg: [Nodyn briffio: Y Gymraeg a'r gweithlu addysg statudol yng Nghymru](#) - 6 Awst 2020

¹⁰⁷ Llywodraeth Cymru: [Canllawiau ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg](#) - 21 Ionawr 2021 (PDF 1.5MB)

¹⁰⁸ Ymateb i'r ymgynghoriad: [WESP07 Coleg Cymraeg Cenedlaethol](#) (PDF 562KB)

ymyriadau effeithiol wedi'u targedu. Mae'r sector hefyd yn galw am i'r gweithlu meithrin gael ei gynrychioli yn y Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion.¹⁰⁹

142. Ers cyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2021, dywedodd Dyfodol i'r Iaith wrthym fod angen cyflenwad digonol o athrawon a staff cymorth, gan bwysleisio'r angen i hyd at 17,000 o athrawon gael hyfforddiant sabothol yn y Gymraeg. Mae'n dweud y bydd hyn yn caniatáu addysgu mwy o'r Gymraeg drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â chynyddu nifer y gweithgareddau allgyrsiol yn y Gymraeg.¹¹⁰

143. Rhannodd Mudiad Meithrin a Cholegau Cymru safbwyntiau tebyg i randdeiliaid eraill, gyda Cholegau Cymru yn nodi: "one of the main challenges will be ensuring sufficient staffing levels and staff with adequate Welsh language skills to deliver the WESP".¹¹¹ Nododd y Mudiad Meithrin yn ei bapur tystiolaeth mai'r brif her ar gyfer y blynyddoedd nesaf fydd:

*"sicrhau cyflenwad digonol o ymarferwyr sydd yn meddu ar y sgiliau proffesiynol angenrheidiol ynghyd â sgiliau Cymraeg o'r safon uchaf posib i'r gweithlu Gofal Plant, Blynyddoedd Cynnar a Gwaith Chwarae."*¹¹²

144. Yn ôl y Mudiad Meithrin, rhaid sicrhau cynllunio'r gweithlu er mwyn "peidio â cholli momentwm o'r groesffordd dyngedfennol hon". Dywed fod angen archwiliad sgiliau Cymraeg i'r holl staff sy'n gweithio ac yn cefnogi ysgolion a'r sector blynyddoedd cynnar mewn sectorau Cymraeg a chyfrwng Saesneg, ac y bydd hyn yn:

*"rhoi cyfle i adnabod ble mae'r gallu i weithio yn y Gymraeg, a ble mae angen buddsoddiad ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol."*¹¹³

145. O ran yr heriau recriwtio, dywedodd y Gweinidog wrthym:

"Mae'r her mor sylweddol ac mae hyn yn cael ei dderbyn gan bartneriaid ar draws y system i gyd. Dylwn i ddweud bod yr her recriwtio yn un sy'n gyffredin i systemau addysg ym mhob man, felly dyw e ddim yn benodol, ond mae'n enwedig o her yn y cyd-destun cyfrwng Cymraeg, wrth gwrs, am resymau amlwg. Felly,

¹⁰⁹ Ymateb i'r ymgynghoriad: [WESP16 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru \(CLILC\) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru \(ADEW\)](#) (PDF 2MB)

¹¹⁰ Ymateb i'r ymgynghoriad: [IOCD12 Dyfodol i'r Iaith](#) (PDF 922KB)

¹¹¹ Ymateb i'r ymgynghoriad: [IOCD03 Colegau Cymru](#) (Saesneg yn unig) (PDF 387KB)

¹¹² Ymateb i'r ymgynghoriad: [IOCD04 Mudiad Meithrin](#) (PDF 720KB)

¹¹³ Ymateb i'r ymgynghoriad: [IOCD04 Mudiad Meithrin](#) (PDF 720KB)

*rwyn agored i unrhyw awgrymiadau creadigol am sut gallem ni newid y system gefnogi hynny.*¹¹⁴

146. Nododd y Gweinidog hefyd ei bod yn bwysig edrych ar yr “ecosystem recriwtio”. Hynny yw, mae recriwtio athrawon yn bwysig ond mae angen ystyried swyddi eraill fel cynorthwyyr addysgu.¹¹⁵

Achrediad, hyfforddiant a chysiau

147. Roedd galwadau am welliannau i'r hyfforddiant a'r cymorth sydd ar gael i staff presennol i'w galluogi i gyfrannu at dargedau Cymraeg 2050. Nododd Mudiad Meithrin fod angen cadw ein staff presennol cyn hyd yn oed ystyried ehangu'r gweithlu:

*“So, os ydyn ni'n atynnu pobl i weithio fel athrawon yn yr ysgolion, sydd yn cael ei gweld fel swydd statws uchel, mae hynny wedyn yn tynnu pobl, o bosib, fyddai wedi hyfforddi i fod yn gweithio yn y sector gofal plant neu ôl-statudol lle mae'r cytundebau gwaith a'r cyflogau ddim o reidrwydd i'r un lefel.”*¹¹⁶

148. Mae'r Athro Enlli Thomas, Prifysgol Bangor, am weld system achredu cyfrwng Cymraeg yng Nghymru. Mae athrawon sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu hyfforddi i addysgu ystod eang o destunau i blant, ond nid o reidrwydd i addysgu mewn gwahanol leoliadau – er enghraifft, os ydynt yn symud o ysgol â nifer uchel o blant o gefndiroedd Cymraeg i un lle nid y Gymraeg yw iaith naturiol. Mae hyn yn gofyn am hyfforddiant arbenigol gan fod anghenion ieithyddol a diwylliannol pob ysgol ac ardal yn wahanol. Nododd hefyd yr angen i edrych ar sut mae cysiau'n cael eu cynllunio a sut mae athrawon yn cael eu hyfforddi i addysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.¹¹⁷

149. Awgrymodd Estyn y gallai integreiddio elfennau o'r cynllun sabothol i hyfforddiant cychwynnol athrawon “greu mwy o siaradwyr ar eu taith i fod yn

¹¹⁴ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 17 Tachwedd 2022, paragraff 130

¹¹⁵ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 17 Tachwedd 2022, paragraff 134

¹¹⁶ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Hydref 2022, paragraff 215

¹¹⁷ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 6 Gorffennaf 2022, paragraffau 129-131

athrawon, a'i fod e'n gymhwyster sydd ar gael i unrhyw un sydd am ddysgu yng Nghymru".¹¹⁸

150. Yn ei ymateb i'n galwad am dystiolaeth ar ôl cyhoeddi data'r Cyfrifiad, amlygodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol fod rôl allweddol gyda Phartneriaethau Addysg Gychwynnol Athrawon i'w chwarae wrth ddatblygu gweithlu dwyieithog y dyfodol ar gyfer y system ysgolion yn ei chyfanrwydd. Mae'n nodi'r gwaith presennol o fewn Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r meini prawf achredu ar gyfer cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon. Dywed y Coleg Cymraeg fod y meini prawf diwygiedig yn adlewyrchu "rôl cwbl allweddol" y partneriaethau Addysg Gychwynnol Athrawon o fewn y cyd-destun hwn, ond ei fod yn "anghyson" a "ddim bob tro yn adlewyrchu cyhoeddiadau polisi diweddar Llywodraeth Cymru".¹¹⁹

151. Roedd undebau athrawon hefyd yn gweld angen am fwy o hyfforddiant a chymorth i athrawon. Dywedodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru wrthym, os ydych am gaffael iaith:

*"It needs to be frequent, in short bursts, and it needs to be very regular, if it's not an immersion course. To do that, you need to have time in the working week in order that that can actually be delivered."*¹²⁰

152. Dywedodd NASUWT wrthym ei bod yn "hanfodol bwysig fod yna gymaint o bosibiliadau ar gael iddyn nhw drochi a bod yn hyddysg yn y Gymraeg" a bod angen neilltuo amser ar gyfer hyn.¹²¹

153. Nododd awdurdodau lleol hefyd bwysigrwydd dysgu proffesiynol a chysiau trochi i athrawon, gan alw am sefydlu system drochi genedlaethol. Nododd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru yr angen i fuddsoddi'n sylweddol yn y tymor byr a'r tymor canolig i gefnogi athrawon ac ysgolion, ond dros amser, bydd angen llai o fuddsoddiad gan y bydd y system addysg yn cynhyrchu gweithlu dwyieithog i'r dyfodol.¹²²

¹¹⁸ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 6 Gorffennaf 2022, paragraff 140

¹¹⁹ Ymateb i'r ymgynghoriad: [IOCD02 Coleg Cymraeg Cenedlaethol](#) (PDF 2MB)

¹²⁰ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 28 Medi 2022, paragraff 120

¹²¹ Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 28 Medi 2022, paragraff 124

¹²² Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Hydref 2022, paragraff 305

154. Yn dilyn cyhoeddi canlyniadau'r Cyfrifiad ym mis Rhagfyr 2022, dywedodd Comisiynydd y Gymraeg wrthym "nid yw'n ormodiaeth dweud bod angen chwyldro yn y ffordd rydym yn datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu addysg".¹²³ Aiff Comisiynydd y Gymraeg ymlaen i ddweud, heb ymyrraeth, ei bod yn debygol y bydd cylch diddiwedd lle bydd prinder gofalwyr, athrawon a darlithwyr sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg.¹²⁴ Mae'r Athro Enlli Thomas (Prifysgol Bangor) yn rhannu'r un farn gan alw am uwchsgilio staff yn barhaus, a dywed y Coleg Cymraeg Cenedlaethol y dylai'r rhai nad ydynt yn rhugl neu'n hyderus gael cymorth ychwanegol i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.¹²⁵

Ariannu datblygiad y gweithlu cyfrwng Cymraeg

155. Ar hyn o bryd mae dau lwybr gwahanol i athrawon ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

156. I athrawon presennol, mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu cynllun sabothol¹²⁶, lle mae athrawon mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn cael eu rhyddhau o'r ystafell ddosbarth am gyfnodau o astudiaeth ddwys i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg a magu hyder mewn methodolegau addysgu dwyieithog a chyfrwng Cymraeg. Mae'r cynllun am ddim ac mae Llywodraeth Cymru yn rhoi grant i ysgolion tuag at gostau athrawon cyflenwi ac i ad-dalu costau teithio ar gyfer cyfranogwyr y cyrsiau.

157. I athrawon newydd, mae Llywodraeth Cymru yn darparu grantiau cymhelliant drwy'r cynllun iaith Athrawon Yfory.¹²⁷ Mae'r cynllun ar gael i'r rhai sy'n ymgymryd â hyfforddiant cychwynnol athrawon ar raglen sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig, ac sy'n galluogi'r rhai sy'n gymwys i addysgu mewn ysgolion uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg, neu'r Gymraeg fel pwnc. Mae £2,500 ar gael ar ôl cwblhau hyfforddiant cychwynnol athrawon. Telir £2,500 arall ar ôl cwblhau cyfnod sefydlu yn llwyddiannus mewn ysgol cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, neu mewn ysgol cyfrwng Saesneg os ydynt yn addysgu Cymraeg fel pwnc. Mae'r cymhellion hyn yn ychwanegol at gymhellion hyfforddi athrawon pwnc-benodol.¹²⁸

¹²³ Ymateb i'r ymgynghoriad: [IOCD09.Comisiynydd y Gymraeg](#) (PDF 868KB)

¹²⁴ Ymateb i'r ymgynghoriad: [IOCD08.Yr Athro Enlli Thomas, Prifysgol Bangor](#) (PDF 868KB)

¹²⁵ Ymateb i'r ymgynghoriad: [IOCD02.Coleg Cymraeg Cenedlaethol](#) (PDF 2MB)

¹²⁶ Llywodraeth Cymru: [Datblygu'r Gymraeg yn eich ysgol: Cynllun Sabothol iaith Gymraeg](#)

¹²⁷ Llywodraeth Cymru: [Cynllun Cymhelliant iaith Athrawon Yfory: arweiniad i fyfyrwyr](#) - 8 Mehefin 2022

¹²⁸ Llywodraeth Cymru: [Cymhelliant Addysg Cychwynnol Athrawon ar gyfer Pynciau â Blaenoriaeth: canllawiau i fyfyrwyr 2022 i 2024](#) - 25 Tachwedd 2022

158. Mae undebau UCAC¹²⁹ ac NASUWT¹³⁰ wedi rhannu pryderon â ni ynghylch ffrydiau cyllido pwrpasol i ategu'r gwaith o gynllunio gweithlu a thargedau yn y sector hwn. Mae Comisiynydd y Gymraeg o'r farn mai un o brif ystyriaethau ariannu Llywodraeth Cymru yw'r gweithlu addysg dwyieithog. Mae'n honni bod hyn yn "gwbl allweddol i lwyddiant y CSCAau, ac yn fwy cyffredinol i weddill amcanion a thargedau Cymraeg 2050"¹³¹. Roedd yn ymddangos bod Estyn yn cytuno yn ei ymateb, gan nodi bod y cyllid yn hollbwysig wrth ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol i ymarferwyr, gyda Chyngor Sir Gâr yn galw am gyllid ychwanegol i gefnogi datblygiad sgiliau iaith staff addysgu a staff cymorth. Yn yr un modd mae Colegau Cymru yn galw am fwy o adnoddau i gefnogi datblygiad y gweithlu dwyieithog, ac yn nodi'r angen penodol am hyfforddiant Cymraeg dwys i staff. Yn ei bapur, dywed fod un coleg addysg bellach wedi dweud: "the National Sabbatical Scheme has proven to be an excellent opportunity to generate more Welsh speaking teachers, and that this scheme would contribute towards building staff capacity".¹³²

159. Galwodd NASUWT hefyd am gyllid i alluogi mwy o ddeiliaid swyddi presennol i gael eu "rhyddhau â thâl" o ddyletswyddau addysgu a chael cymorth i wella eu sgiliau Cymraeg.¹³³

160. Mae cyllid ac adnoddau ychwanegol yn allweddol i ddatrys problemau gweithlu'r dyfodol yn ôl rhai rhanddeiliaid mewn ymateb i ddata Cyfrifiad 2021.

161. Cadarnhaodd y Gweinidog ym mis Mai ar ôl cyhoeddi cynllun gweithlu'r Gymraeg mewn addysg:

"Mae £1 filiwn arall yn cael ei ddyrannu yn 2022-23, gyda chynnydd dangosol pellach o £500,000 yn 2023-24 a £2 filiwn yn 2024-25. Mae'r cyllid newydd yn ychwanegol at gyllid presennol, sydd yn cynnwys £785,000 ar gyfer iaith Athrawon Yfory, £6.35 miliwn ar gyfer y cynllun sabothol a chymorth rhanbarthol neu leol ar gyfer dysgu proffesiynol yn Gymraeg, £700,000 ar gyfer y rhaglen drosi, a £145,000 i gefnogi gweithgareddau i gynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio'r

¹²⁹ Ymateb i'r ymgynghoriad: [IOCD10 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru \(UCAC\)](#) (PDF 475KB)

¹³⁰ Ymateb i'r ymgynghoriad: [IOCD07 NASUWT](#) (Saesneg yn unig) (PDF 1MB)

¹³¹ Ymateb i'r ymgynghoriad: [IOCD09 Comisiynydd y Gymraeg](#) (PDF 868KB)

¹³² Ymateb i'r ymgynghoriad: [IOCD03 Colegau Cymru](#) (Saesneg yn unig) (PDF 387KB)

¹³³ Ymateb i'r ymgynghoriad: [WESP11 NASUWT](#) (Saesneg yn unig) (PDF 1MB)

*Cymraeg fel pwnc. Mae hyn yn dod â'r cyfanswm i bron i £9 miliwn yn 2022-23, sydd yn fuddsoddiad sylweddol.*¹³⁴

Ein barn ni

162. Adeiladu gweithlu dwyieithog yw un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid allweddol. Rydym yn cydnabod bod heriau i recriwtio athrawon, yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn gyffredinol. Fodd bynnag, gallai prinder athrawon cyfrwng Cymraeg danseilio Cymraeg 2050 a'r targedau sydd ynddi.

163. Clywsom dystiolaeth nad yw'r data ar sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu addysgu yn ddigon cadarn nac amserol, gan rwystro cynllunio effeithiol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn lleol. Mae sicrhau data dibynadwy ac amserol ar y gweithlu addysgu yn hollbwysig os yw awdurdodau lleol am lwyddo i gyrraedd eu targedau CSCA. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda phartneriaid allweddol i wella mesurau casglu data ac i sicrhau mwy o ddata 'amser real' i gynorthwyo gyda gwaith cynllunio. Roeddem hefyd yn synnu o glywed nad yw data ar weithlu'r blynyddoedd cynnar yn cael ei gynrychioli yng Nghyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Ysgolion, ac felly rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i wella'r broses o gasglu data yn y sector cyn-statudol.

Argymhelliad 13. Rhaid i Lywodraeth Cymru, ynghyd ag awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol ddatblygu a gwella mesurau casglu data cadarn ac effeithiol i gefnogi datblygiad gweithlu dwyieithog.

Argymhelliad 14. Rydym hefyd yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y gweithlu meithrin yn cael ei gynrychioli mewn arolwg Cyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Ysgolion yn y dyfodol i wella'r gwaith o gasglu a dadansoddi data ar sgiliau Cymraeg ar draws y sector cyn-statudol.

164. Clywsom hefyd am yr angen am newid sylweddol yn y modd yr ydym yn uwchsgilio ac yn trochi ein gweithlu addysgu yn y Gymraeg. Os yw Llywodraeth Cymru o ddifrif ynglŷn â'i nod i "weddnewid sut rydym yn addysgu Cymraeg i bob dysgwr fel bod o leiaf 70 y cant o'r dysgwyr hynny'n gallu dweud erbyn 2050 eu bod yn gallu siarad Cymraeg erbyn iddynt adael yr ysgol"¹³⁵ (Cymraeg 2050), yna nid yw parhau fel yr ydym yn opsiwn. Os ydym yn disgwyl i awdurdodau lleol weithredu eu CSCAau yn llwyddiannus, ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a

¹³⁴ Cofnod y Trafodion: Y Cyfarfod Llawn - 24 Mai 2022, eitem 5

¹³⁵ Llywodraeth Cymru: Cymraeg 2050: strategaeth y Gymraeg, tudalen 12 - 10 Gorffennaf 2017

symud ysgolion ar hyd y continwwm ieithyddol, yna rhaid rhoi blaenoriaeth i gefnogi'r gweithlu addysgu i uwchsgilio.

165. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn rhaglenni trochi i alluogi'r gweithlu addysgu i uwchsgilio'n gyflym. Credwn hefyd fod angen mwy o gymorth i ymarferwyr blynyddoedd cynnar wella eu sgiliau Cymraeg. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried a ellid ehangu'r Cynllun Sabothol i gynnwys y sector hwn, neu hyrwyddo ac ehangu'r ddarpariaeth bresennol drwy Dysgu Cymraeg. Rydym yn nodi bod adroddiad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd yn ei adroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2023/24 wedi galw ar i Lywodraeth Cymru nodi'n fanylach ei chynlluniau ar gyfer hybu nifer yr ysgolion ac athrawon sy'n manteisio ar y rhaglen sabothol.¹³⁶

Argymhelliad 15. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i ddichonoldeb system achredu cyfrwng Cymraeg ar gyfer athrawon sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai hyn yn sicrhau bod gan athrawon y sgiliau i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg lle mae anghenion ieithyddol a diwylliannol pob ysgol neu ardal yn wahanol. Dylai hyn gynnwys yr angen i edrych ar sut mae cyrsiau'n cael eu cynllunio a sut mae athrawon yn cael eu hyfforddi i addysgu Cymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.

Argymhelliad 16. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru ynghyd â phartneriaid allweddol yn archwilio'r potensial i integreiddio elfennau o'r Cynllun Sabothol i raglenni Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon i drochi a gwella sgiliau iaith Gymraeg athrawon dan hyfforddiant.

Argymhelliad 17. Rydym yn argymell bod angen i Lywodraeth Cymru fuddsoddi'n sylweddol mewn uwchsgilio'r gweithlu addysgu presennol, gan roi'r cyfle i nifer uwch o athrawon, cynorthwywyr addysgu a darlithwyr ymgymryd â'r Cynllun Sabothol.

Argymhelliad 18. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ellid ehangu'r Cynllun Sabothol i rai ymarferwyr blynyddoedd cynnar yng Nghymru sy'n cefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector, neu i hyrwyddo ac ehangu'r Cynllun Dysgu Cymraeg ar gyfer Addysg y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant drwy Dysgu Cymraeg.

¹³⁶ Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24 – Chwefror 2023 (PDF 702KB)

7. Ymateb i Cyfrifiad 2021

166. Cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ei **data o'r Cyfrifiad 2021 ar y Gymraeg** ar 6 Rhagfyr 2022. Er bod y data yn dangos gostyngiad¹³⁷ yn nifer y plant 5 i 15 oed oedd yn gallu siarad Cymraeg, mae canran y bobl yn y grŵp oedran hwn sy'n gallu siarad Cymraeg yn dal yn uwch nag unrhyw grŵp oedran arall. Mae hyn yn dangos y rôl allweddol y mae addysg yn ei chwarae o ran cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. O ystyried hyn, roeddem yn awyddus i ddeall barn cyfranogwyr yr ymchwiliad hwn am effaith data'r Cyfrifiad diweddar ar y fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi'r Ddarpariaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.¹³⁸

167. Ar y cyfan, mae'r dystiolaeth ychwanegol a ddaeth i law yn awgrymu nad oes gan ganlyniadau'r Cyfrifiad, ar eu pennau eu hunain, oblygiadau uniongyrchol o ran y gwaith cynllunio presennol ar gyfer Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, er y gallent effeithio ar gyrraedd rhai targedau. Fodd bynnag, mae rhai rhanddeiliaid o'r farn nad yw fframwaith y CSCA wedi bod yn effeithiol, neu bydd angen ailedrych arno yn dilyn y canlyniadau.

168. Dywedodd Dyfodol i'r Iaith wrthym fod y gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg sydd wedi'u cofrestru yn y garfan 5 i 15 oed yn ganlyniad i ddehongliad rhieni o sgiliau iaith eu plant, a gafodd eu heffeithio gan y pandemig.¹³⁹ Rhannodd UCAC bryderon hefyd am yr ansicrwydd yn y data ynglŷn â dehongli sgiliau iaith gan rieni. Ychwanegwyd y gallai hyn effeithio ar b'un a yw awdurdodau lleol yn gallu cyflawni'r targedau a nodir yn eu Cynlluniau Strategol ai peidio.¹⁴⁰

169. Yn ôl Comisiynydd y Gymraeg, "nid oes angen anobeithio", ond bod rhaid bod yn onest o ran deall yr hyn y mae'r data yn ei amlygu a'r heriau sy'n bodoli. Mae ymateb y Comisiynydd i'n galwad am dystiolaeth yn nodi bod "bylchau a gwendidau amlwg yng ngweithrediad elfennau allweddol o strategaeth Cymraeg 2050". Y peth mwyaf arwyddocaol yw ei fod yn dweud bod y rhain yng nghamau cynllunio a datblygu'r gweithlu dwyieithog.¹⁴¹

¹³⁷ Llywodraeth Cymru: [Y Gymraeg yng Nghymru \(Cyfrifiad 2021\). Y gallu i siarad Cymraeg](#) - 6 Rhagfyr 2022

¹³⁸ Ymgynghoriad Pwyllgor: [Goblygiadau data y Cyfrifiad i'r fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi'r Ddarpariaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg](#)

¹³⁹ Ymateb i'r ymgynghoriad: [IOCD12 Dyfodol i'r Iaith](#) (PDF 922KB)

¹⁴⁰ Ymateb i'r ymgynghoriad: [IOCD10 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru \(UCAC\)](#) (PDF 475KB)

¹⁴¹ Ymateb i'r ymgynghoriad: [IOCD09 Comisiynydd y Gymraeg](#) (PDF 868KB)

170. Dywedodd Cymdeithas yr Iaith wrthym fod y Cyfrifiad yn amlygu faint o waith sydd eto i'w wneud, a phwysigrwydd addysg ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr. Roedd o'r farn bod y system CSCAau yn weithredol drwy ran fwyaf cyfnod y Cyfrifiad, sydd yn "brawf pellach" nad yw fframwaith y Cynlluniau yn effeithiol. Mae'n galw am ddisodli'r fframwaith Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg â "fframwaith statudol cenedlaethol" sydd yn gosod targedau a chynllun gweithredu ar gyfer pob awdurdod lleol. Byddai fframwaith o'r fath yn cyd-fynd â Deddf Addysg Gymraeg newydd a byddai hyn yn darparu ar gyfer cynllunio bwriadus a gosod y nod bod "pob plentyn yn derbyn addysg Gymraeg mewn cyfnod penodol".¹⁴²

171. Mae Colegau Cymru yn credu efallai y bydd angen ailedrych ar rai Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, yn enwedig lle mae data'r Cyfrifiad yn dangos gostyngiadau sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae'n honni: "delivery of WESPs will become even more critical and will require greater commitment and increased efforts by all agencies".¹⁴³

172. Soniodd nifer o randdeiliaid am bwysigrwydd gweithgareddau allgyrsiol drwy gyfrwng y Gymraeg a chefnogi trosglwyddiad iaith i greu siaradwyr Cymraeg mwy hyderus. Er enghraifft, mae'r Athro Enlli Thomas yn nodi bod y Cyfrifiad wedi dangos, gyda gostyngiad yn nifer y siaradwyr yng nghadarnleoedd y Gymraeg a llai yn trosglwyddo'r iaith yn y cartref, ei bod yn hanfodol "bod ysgolion yn creu'r amodau ble gall blant gaffael y Gymraeg yn naturiol".¹⁴⁴

173. Wrth gwrs, mae buddsoddi yn elfen allweddol tuag at drawsnewid ffawd yr iaith, gyda'r Mudiad Meithrin yn galw am fuddsoddiad pellach yn ei waith yn sector y blynyddoedd cynnar. Hefyd, mae'n tynnu sylw at yr angen i "ystyried y berthynas rhwng y Mudiad a gwneuthurwyr polisi o fewn yr Awdurdodau Lleol".¹⁴⁵

174. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn rhybuddio y gallai data'r Cyfrifiad roi cyfle i'r rhai "sydd ddim yn gefnogol o'r CSCA i gwestiynu gwerth ac i herio'r polisi o greu dysgwyr dwyieithog". Mae ei bapur hefyd yn dweud y gallai canlyniadau'r Cyfrifiad hefyd gael eu defnyddio fel dadl gan rai yn erbyn symud ysgolion ar hyd y continwmm.¹⁴⁶

¹⁴² Ymateb i'r ymgynghoriad: [IOCD04.Cymdeithas.yr.Iaith](#) (PDF 223KB)

¹⁴³ Ymateb i'r ymgynghoriad: [IOCD03.ColegauCymru](#) (Saesneg yn unig) (PDF 387KB)

¹⁴⁴ Ymateb i'r ymgynghoriad: [IOCD08.Yr.Athro.Enlli.Thomas.Prifysgol.Bangor](#) (PDF 868KB)

¹⁴⁵ Ymateb i'r ymgynghoriad: [IOCD04.Mudiad.Meithrin](#) (PDF 720KB)

¹⁴⁶ Ymateb i'r ymgynghoriad: [IOCD01.Cyngor.Sir.Gar](#) (PDF 359KB)

Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we'r Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a sefydliad
6 Gorffennaf 2022	Clive Phillips, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Estyn Hayden Llewellyn, Prif Weithredwr, Cyngor y Gweithlu Addysg Arwyn Thomas, Rheolwr Cyfarwyddwr, Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol Enlli Thomas, Prifysgol Bangor
28 Medi 2022	Eithne Hughes, Cyfarwyddwr, Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) Ioan Rhys Jones, Ysgrifennydd Cyffredinol, Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) Siôn Amlyn, Swyddog Polisi a Gwaith Achos, Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) Heini Gruffudd, Cadeirydd, Dyfodol i'r Iaith Toni Schiavone, Cadeirydd y Grŵp Addysg, Cymdeithas yr Iaith Dyfan Sion, Cyfarwyddwr Strategol Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg Elin Maher, Cyfarwyddwr Cenedlaethol Dros Dro Rhieni Dros Addysg Gymraeg (RhAG)
13 Hydref 2022	Angharad Morgan, Rheolwr Polisi, Mudiad Meithrin Aled Jones-Griffith, Pennaeth Coleg Meirion Dwyfor a Choleg Menai, ColegauCymru Dafydd Trystan, Cofrestrydd ac Uwch-reolwr Academaidd, Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dyddiad	Enw a sefydliad
	Darren Price, Llefarydd CLILC, Cyngor Sir Caerfyrddin Meinir Ebbsworth, Llefarydd ADEW, Cyngor Sir Ceredigion
17 Tachwedd 2022	Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg Llywodraeth Cymru

Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Cyfeirnod	Sefydliad
WESP 01	Estyn
WESP 02	Comisiynydd Plant Cymru
WESP 03	Cyngor y Gweithlu Addysg
WESP 04	Consortia Rhanbarthol
WESP 05	ColegauCymru
WESP 5a	ColegauCymru
WESP 06	Cymwysterau Cymru
WESP 07	Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
WESP 08	Comisiynydd y Gymraeg
WESP 8a	Comisiynydd y Gymraeg
WESP 09	Mudiad Meithrin
WESP 10	Unigolyn
WESP 11	Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT)
WESP 12	Cymdeithas yr Iaith
WESP 13	Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
WESP 14	Dyfodol i'r Iaith
WESP 15	Rhieni Dros Addysg Gymraeg (RhAG)
WESP 16	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)

Atodiad 3: Tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol

Yn ei gyfarfod ar 8 Rhagfyr 2022, cytunodd y Pwyllgor i ofyn am dystiolaeth ychwanegol ar effaith data'r Cyfrifiad diweddar ar y fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi'r Ddarpariaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCAau). Gwnaeth y bobl a'r sefydliadau a ganlyn gymryd rhan yn y cais hwn am dystiolaeth. Mae'r holl ymatebion ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Cyfeirnod	Sefydliad
IOCD 01	Cyngor Sir Caerfyrddin
IOCD 02	Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
IOCD 03	ColegauCymru
IOCD 04	Cymdeithas yr Iaith
IOCD 05	Cyngor y Gweithlu Addysg
IOCD 06	Mudiad Meithrin
IOCD 07	Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT)
IOCD 08	Yr Athro Enlli Thomas, Prifysgol Bangor
IOCD 09	Comisiynydd y Gymraeg
IOCD 10	Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
IOCD 11	Estyn
IOCD 12	Dyfodol i'r Iaith